



COGINIO

Tudalen 4



YDDAWNS FLODAU

Tudalen 11



CHWIP O GEM

Tudalen 23



ZOE WOOD

Tudalen 13

ECO'r Wyddfa

Rhif: 396
Chwefror 2012
Pris: 50c

Ceffyl Rhyfel



Er mai fel llyfr i blant yr ysgrifennwyd War Horse gan Michael Morpugo, mae'n ymddangos y bydd y ffilm sydd newydd ei rhyddhau ganol Ionawr, yn un o lwyddiannau mawr eleni. Ac y mae Dylan Jones o Lanberis wedi bod a rhan allweddol yn y gwaith ffilmio, a phump o geffylau o stabal Dolbadarn yn chwarae rhan amlwg ynddi – ar ran y Prydeinwyr a'r Almaenwyr!

Mae Cwmni Ceffylau Ffilm Dolbadarn wedi ei sefydlu ers y 1970'au, a hynny gan Aneurin Jones, tad Dylan. Bu eu ceffylau'n cael eu defnyddio yn Nglyn Rhonwy pan ffilmwyd The Keep yno yn 1982, ac yna roeddent yn gyfrifol am gant o geffylau yn ystod ffilmio Willow yn Chwael D'norwig yn 1987.

Dilynodd Dylan ei hun gwrw perfformio ym Mangor ac yng Nghaerfyrddin cyn cael

gwahoddiad i ymuno a'r Horsemen of the Apocalypse yn Frodsham, swydd Caer. Arhosodd gyda'r cwmni am chwe mlynedd, a threuliodd hefyd gyfnodau yn Sbaen a Phortiwgal yn dysgu mwy am drin ceffylau. Bu'n brofiad amhrisiadwy iddo, oherwydd y mae bellach yn ennill ei fara menynt yn paratoi ceffylau ar gyfer gwahanol gynhyrchiadau ym myd ffilm a theledu – ac actio ei hun hefyd. Ymhlith ei



lwyddiannau mae Dirgelwch yr Ogof a Porc Peis Bach ar S4C, Robin Hood, gyda Russell Crowe, Colour of Magic (Terry Pratchett) ac yn fwy diweddar, y gyfres deledu boblogaidd Merlin, sy'n cael ei ffilmio'n rhannol yng Nghaerdydd a'r Forest of Dean.

Mae 15 o geffylau gan y cwmni yn Llanberis, a'r stalwyni sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y gwaith ffilmio, yn enwedig pan fo angen 'stunts'. Maent yn cael eu gweithio yn rheolaidd pan na fyddant yn ffilmio mewn gwahanol rannau o'r wlad.

Treuliodd Dylan bump wythnos yn Basingstoke ar stad Dug Wellington yn ffilmio ar gyfer War Horse, ac yr oedd yn brofiad unigryw cael cydweithio efo'r cyfarwyddwr byd-enwog Steven Spielberg. Treuliodd bythefnos arall yn ddiweddarach yn ffilmio fel Almaenwr.

Fis Mawrth mae'n debygol o fod i lawr unwaith eto yng Nghaerdydd a'r cyffiniau yn ffilmio'r gyfres olaf o Merlin i'r BBC. Dymunwn bob llwyddiant iddo – ac i'r ceffylau – yn y dyfodol.

TRYCHINEB

Syfrdanwyd a brawychwyd ardal gyfan ar fore Calan gyda'r newyddion am y ddamwain erchyll yng Ngroeslon Marc, Llanrug. Estynnwn ein cydymdeimlad, yn swyddogion, gohebwyr, darllenwyr a phawb sy'n gysylltiedig a'r "Eco" i'r teuluoedd yn eu colled a'u galar.

Peidiwn chwaith ac anghosio aclo dau'r heddlu a'r gwasanaethau brys a fu'n delio efo'r digwyddiad; hwythau o bosib yn rhieni, yn frodyr neu'n chwiorydd i ferched ifanc eu hunain. Pwy fyddai

wedi dymuno gorfod hysbysu'r teuluoedd o'r drychineb ar fore oedd i fod yn ddathliad o gychwyn blwyddyn newydd? Felly hefyd yr ymgymrwyr a wnaeth eu gwaith yn drylwyr a chydymdeimladwy dan amgylchiadau hynod o anodd ac emosiynol.

Diolch am gael byw mewn ardal ble mae'r gymdeithas glos draddodiadol yn parhau, a honno'n gymorth i gynnal unigolion a theuluoedd mewn amser mor anodd.

ECO'r Wyddfa

RHIF 396 CHWEFROR 2012

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911
Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel,
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Swh-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Coronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (030799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swh-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (030370)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL, 19 CHWEFROR
Os gwelwch yn dda
dyddiad Cosod
NOS IAU, 23 CHWEFROR
Sefydliad Coffa Llanrug
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 1 MAWRTH

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU' RECO 2012

Rhifyn Mawrth	Copi 19 Chwefror	Gosod 23 Chwefror	Plygu 1 Mawrth	Ble Llanrug
Ebrill	18 Mawrth	22 Mawrth	29 Mawrth	Cwm y Glo
Mai	15 Ebrill	19 Ebrill	26 Ebrill	Deiniolen
Mehefin	20 Mai	24 Mai	31 Mai	Brynrefail
Gorffennaf	17 Mehefin	21 Mehefin	28 Mehefin	Bethel

LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr

Diddordeb yn yr amgylchedd? Eisiau gyrfa mewn maes cyffrous?
Eisiau gweithio yn yr awyr agored? Os oes, yna'r cwrs MSC/MA
Rheolaeth Amgylcheddol Gynaliadwy ym Mhrifysgol Bangor
yw'r un i chi.

Hoffwn dynnu eich sylw at gwrs meistr cyfrwng Cymraeg hwn.
Cynigir y cwrs gan Brifysgol Bangor ac y mae'n gwrs llawn amser
dros flwyddyn neu'n rhan amser dros ddwy flynedd.

Mae'r cwrs yn cyflwyno ystod eang o bynciau sy'n edrych ar
gynaliadwyedd mewn cyd-destun trefol, gwledig ac ar lefel yr
unigolyn. Bydd cyfle i astudio enghreifftiau o gynaliadwyedd trwy
sawl cyfnod o waith maes.

Un o brif amcanion y cwrs meistr arbennig hwn yw ymateb i'r
galw cynyddol sydd ymysg cyflogwyr yng Nghymru am unigolion
gyda'r cefndir academaidd perthnasol a hefyd y sgiliau a'r hyder i
gyfathrebu'n effeithiol mewn sefyllfaoedd dwyieithog.

Cefnogir y cwrs gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cyngor Cefn
Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr
Amgylchedd Cymru.

Am fwy o fanylion cysylltwch â

Dr Paula Roberts

Cymrawd Dysgu Cyfrwng Cymraeg

Ysgol Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth

Prifysgol Bangor

01248 838708

p.roberts@bangor.ac.uk

Gwefan Gymraeg i Asiantaeth Gwyliu yng Nghymru

**Mae lansiad gwefan Gymraeg
asiantaeth gwyliu ar-lein,
gan gwmni ifanc Llion
Pughe a Gareth Mahoney,
yn ddatblygiad busnes
arwyddocaol.**

Bydd y wefan Gymraeg,
'Y Gorau o Gymru' (www.
ygorauogymru.co.uk), yn
galluogi cwsmeriaid i chwilio
ac archebu gwyliu ym mhob
cornel o Gymru trwy gyfrwng
y Gymraeg am y tro cyntaf.

Hwn yw'r busnes gwyliu
ar-lein cyntaf o'i fath yng
Nghymru i ddarparu
gwasanaeth a gwefan drwy
gyfrwng y Gymraeg.

Mae Y Gorau o Gymru yn
cynnig llety moethus pedwar
a phum seren ar hyd a lled
Cymru, a nawr fe fydd yn lledu
ei apêl trwy ddarparu gwefan
Gymraeg, yn ogystal ag un
Saesneg ar gyfer archebion ac
ymholiadau.

Meddai Llion sy'n rhedeg
asiantaeth Y Gorau o Gymru
o Gemaes, ger Machynlleth:
'Mac'n holl bwysig i ni fel
cwmni ein bod yn ymgorffori'r

iaith Gymraeg yn ein busnes.
Ychydig iawn o ddarpariaeth
sydd ar gael ym myd twristiaeth
ar gyfer siaradwyr Cymraeg.
Ychwanegodd Gareth, sydd
hefyd yn rhedeg y cwmni o'r
swyddfa yng Nghaerdydd:
'Mae 22% o'n archebion yn
dod gan bobl sydd yn byw
yng Nghymru ac mae 1 o bob
5 o drigolion Cymru'n siarad
Cymraeg. Felly mae 'na fwch
yn y farchnad ac 'rydyn ni'n
hyderus y gallwn ei lenwi.'

Fel canlyniad i
ennill cystadleuaeth
entrepreneuriaeth Gorsedd
y Dreigiau yn Eisteddfod
Genedlaethol 2010 yr oedd y
ddau bartner busnes yn medru
cyflawni eu nod o sefydlu'r unig
wefan Gymraeg gan asiantaeth
sy'n gosod bythynnod gwyliu
yn genedlaethol yng Nghymru.
Maent hefyd wedi ymestyn
gwasanaeth y wefan, fel ei
bod nawr yn bosib i ddysgwyr
archebu gwersi Cymraeg
fel rhan o'r profiad gwyliu
unigryw.

Ac os nad ydy hynny'n ddigon,

RHODDION

£30: Rhia Griffiths,
Llundain i gofio am ei mam
Dilys Fouracres

£20: Mrs Kathryn Jones, Y
Ddolwen, Bethel; Er cof am
Jennie Eurwen Goldsworthy,
Deiniolen, gan Selwyn ac
Eurwen Thomas;

£10: Er cof am Mrs Rosalin
Thomas, Rhydfadog,
Deiniolen; Mrs Beryl
Griffiths, 5 Maes Gwylfa,
Deiniolen; Mrs Nellie
Williams, 29 Rhydfadog,
Deiniolen; Rhian a Kelvin,
Crud yr Awel, 5 Bryn
Eglwys, Penisarwaun;
Margaret a Hugh Griffiths, 9
Llainwen Isaf, Llanberis.

£5: Brian Sharpe, Ael y Bryn,
Bethel; Mair Jones, 13 Tan y
Buarth, Bethel; Mrs Olwen
Owen a'r teulu, Stad Tref
Eilian, Waunfawr.

mae'r bythynnod gwyliu
yn dod gyda chynhwysyn
ychwanegol, arbennig iawn sy'n
gwneud gwyliu yng Nghymru
yn unigryw a chyflawn. Fe'i
gelwir yn 'Groeso Cynnes
Cymraeg', a gallwch chwilio
am fythynnod â pherchnogion
sy'n siarad Cymraeg trwy
glicio ar 'perchnogion yn
siarad Cymraeg' o dan 'Mwy o
Opsiynau Chwilio'.

I ddathlu'r garreg filltir hon,
hoffai Y Gorau o Gymru
gynnig cod gostyngiad o 5% i
unrhyw un sy'n dymuno aros
yn eu bythynnod gwyliu yn
2012. Bydd y cynnig yn ddilys
tan y 29ain o Chwefror 2012
a'r cod (i'w ddyfynnu wrth
archebu dros y ffôn neu ar-
lein) yw 'Gwyliu2012'. Gellir
defnyddio hwn ar gyfer unrhyw
ddyddiadau yn ystod 2012.

Am fwy o wybodaeth ynghylch
bythynnod gwyliu Y Gorau
o Gymru ffoniwch 01650 511
101 neu e-bostiwch info@
bestofwales.co.uk

Bu'n rhaid gadael nifer o eitemau allan o rifyn y Nadolig oherwydd iddynt gyrraedd yn hwyr. Dyddiad cau y rhifyn hwnnw oedd nos Sul, 11eg o Ragfyr. Roedd y cyfan wedi

ei deipio a'i olygu erbyn nos Fercher. Roedd yr "Eco" wedi ei osod (ar wahân i'r hysbysebion) erbyn nos Wener. Daeth eitemau a lluniau i law ar y dydd Mercher. Daeth mwy

ar y dydd Iau, ac ychwaneg fyth ar y dydd Gwener. Oedd, roedd y cyfan yn llawer rhy hwyr, ac oherwydd mai naws Nadoligaidd oedd i'r holl

gyfraniadau, nid ydynt wedi eu cynnwys yn y rhifyn hwn 'chwaith.

Felly, daliwch sylw ar y dyddiadau ar dudalen 2.

COFIO CLEDWYN

Yn Ysbyty Gwynedd ar Dachwedd 24ain y bu farw Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, Llanrug, ac yntau yn 95 mlwydd oed. Bu mewn gofal yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn gyntaf yng Nghartref Nyrsio Penisarwaen ac yna yn Sant Tysilio, Llanfairpwll. Cydymdeimlir â'i enethod, Ceridwen a Mary a'u teuluoedd oll. Daeth Gareth, ei ŵyr, a'i deulu adref o Ganada i angladd ei daid.

Dechrau'r daith i Cledwyn oedd ar aelwyd Ty'n Lôn ym Methel yn 1916, ef oedd yr ieuengaf o wyth o blant, pedair merch a phedwar o fechgyn i William a Mary Williams.

Ar ei enedigaeth roedd ei frodyr, Bob a Wil, yn ymladd yn y Rhyfel Byd cyntaf ac, yn drist iawn, pan oedd Cledwyn ond ychydig fisoedd oed cafodd Bob ei ladd ac felly ni chafodd erioed ei weld. Collodd Cledwyn ei rieni yn ifanc, sef ei dad pan yn ddeg oed ar ôl gweithio'n galed yn y chwarel ac ar ffermydd yr ardal, a'i fam saith mlynedd ar ôl hyn. Mynychai'r teulu Eglwys Sant Teilo ym Methel a hynny yn ffyddlon ac aeth Cledwyn i Ysgol Bethel a'r Ysgolion yng Nghaernarfon.

Fel llawer o'i gyfoedion, i ddinas Lerpwl yr aeth Cledwyn yn 1936 a chwaraeodd y ddinas hon ran bwysig yn ei hanes cynnar. Ymunodd â Heddlu'r ddinas a chafodd fedal am ei ddewrder yn dal ceffyl a oedd wedi dianc ac yn wyllt, a hynny yn y dyddiau pan ddefnyddiai Cledwyn ei feic i wneud ei waith ar y strydoedd. Gyda llaw, ar gyrraedd ei naw deg oed, derbyniodd dystysgrif arbennig gan Brif Gwnstabl Lerpwl.

Cofnododd Cledwyn, a hynny yn bur drwyadl, ei atgofion am ardal Penny Lane yn y ddinas lle bu'n aros, a hynny mewn sawl pennod ym mhapur Bro Glannau Merswy, sef Yr Angor, ac maent yn ddarlun difyr o'r cyfnod.

Aros dros dro ar ôl cyrraedd y ddinas ar aelwyd Dic, ei gefnder a'i briod, Annie, a wnaeth ac yna cael llety parhaol am rai blynyddoedd yn rhif pedwar Truro Road, lle arhosai amryw o Gymry. Mae portread Cledwyn o berchennog y tŷ, sef Miss Owen o Ben Llŷn, yn un diddorol; yr oedd y Dr. John Owen, Esgob Tŷ Ddewi yn gefnder iddi. Ar farwolaeth Miss Owen aeth Cledwyn, yng nghyfnod yr Ail Ryfel Byd, i letya gyda Elizabeth Anne Griffiths, gynt o Dŷ'r Eglwys, Saron, a diolchgar ydoedd am hyn.

Yn Eglwys Anglicanaidd Cymraeg Lerpwl, sef Sant Deiniol, y cyfarfu Cledwyn â'i briod, Ceinwen. Daeth Ceinwen, a hanai o Rhoscolyn, Môn, i Lerpwl i'r ddinas i weithio fel gweinyddes plant ac ar y Suliau roedd yn athrawes Ysgol Sul yn yr Eglwys. Priododd y ddau yn 1946 yn Eglwys Sant Gwenfaen ym mhlwyf Rhoscolyn.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd gwasanaethodd Cledwyn yn Burma lle roedd yn dyst i ymladd milain, didostur a chreulondeb annisgrifiadwy. Mae'n gwbl amlwg fod ymladd y Siapancaid yn Burma wedi bod yn hunllef iddo a bod y profiadau erchyll yno wedi aros gydag ef weddill ei oes. Treuliodd gyfnodau mewn ysbytai yn dilyn afiechydon peryglus y trofannau. Eto croniclodd Cledwyn yr hanes i rai ysgrifau ac, i mi, mae ei arthygl dan y pennawd, 'Sul y Pasg 1944' a gyhoeddwyd mewn cylchgrawn yn un arbennig. Ar fore Sul y Pasg arbennig hwn yr oedd mewn pentref yng Ngogledd Burma a chafwyd ysbaid fer ynghanol yr ymladd ffyrnig. Roedd y brodorion lleol wedi dianc am eu bywydau i ddiogelwch y brynau gerllaw. Dyma'r Caplan yn cyhoeddi fod gwasanaeth Cymun mewn cwt gerllaw ac, yn ôl Cledwyn: 'Dyma foment sanctaidd yng nghanol y fath gyslfaen creulon a theston annerchiad byr y Caplan oedd: 'A phwy yw fy nghymydog?' Cwestiwn anodd i'w gysidro a'i amgyffred mewn sefyllfa lle roedd cariad ar goll ac aberth yn drom. Geiriau olaf y Caplan cyn i ni droi allan i'r fath hunllef Sul y Pasg oedd 'Cofier

am gariad ac aberth Calfaria'.

Cyrraedd adref yn fyw a diolchgar fu hanes Cledwyn a dychwelodd ef â'i briod yn ôl i Gymru ac aeth i Goleg Llandrindod i gymhwyso ei hun fel athro ar ôl gorffen yn yr heddlu.

Bu'n athro yn Rhoscolyn, Llangefni, Amlwch a Chaergybi cyn dod yn Brifathro Ysgol Cwm-y-glo am naw mlynedd a mwynhau byw ym Mrynrefail, ac yna prifathro Ysgol Llanrug am un mlynedd ar ddeg. Disgrifiwyd ef fel pennaeth ei ysgolion yn un cadarn a theg, gan ennyn parch y rhieni, ei staff a'i ddisgyblion. Cymerai diddordeb yn hynt a helynt ei ddisgyblion, a hynny flynyddoedd ar ôl iddynt adael ei ysgolion a rhinwedd dda oedd hon. Bu ei frawd, Owen, yn brifathro arnaf yn Ysgol Dinorwig a bu'n ddylanwad da arnaf

Er mai ei fagwraeth yn y fro hon, ei gyfnod yn yr heddlu, ei brofiadau tra yn y fyddin, a'i yrfa fel athro yw rhannau canolog ei fywyd, yr oedd bywyd Cledwyn yn llawn o amrywiol bethau eraill a cheisiaf groniclo rhai ohonynt yn fyr.

Oherwydd ei ogwydd sosialaidd bu'n flaenllaw yn y Blaid Lafur am gyfnod yn Etholaeth Arfon pan oedd Goronwy Roberts yn Aelod Seneddol. Cymysgodd â chewri'r mudiad Llafur am flynyddoedd. Yn lleol bu'n ymwneud â Chyngor Cymuned Llanrug a Seindorf Arian y Pentref. Ar bwyllgorau yr oedd trefn, urddas, siarad pendant a chryno yn norm iddo a meddai ar ddawn i areithio ac annerch. Mynegai yn aml nad oedd byth yn poeni am bethau bach oherwydd ei fod wedi mynd trwy bethau mawr.

Bu'n aelod o'r Seiri Rhyddion am dros hanner can mlynedd ac ni chelai hyn. Gallasai droi ei law at wneud pethau amrywiol. Roedd hanes ei fro yn fyw iawn ganddo a chofiai enwau a chefnidir teuluoedd gan fod ganddo gof da, a chofnododd, diolch i'r drefn lawer ar bapur sydd yn werthfawr heddiw.

Fel eglwyswr o'r crud roedd ei thraddodiad, ei litwrgi a'i hanes yn bwysig iddo a daliodd swyddi fel Warden ag ati yn y plwyfi. Soniai yn aml fod y profiad o ymweld â Gwlad yr Iesu ddwy waith gyda Ceinwen, ei briod, wedi creu argraff ddofn arno.

Yn y blynyddoedd diwethaf deuai yn ei dro ataf i Eglwys Llanaelhaearn ar foreau Sul a hynny er mwyn sicrhau y câi wasanaeth uniaith Cymraeg llawn oherwydd teimlai i'r byw fod gwasanaethau honedig ddwyieithog yn aml ond yn cynnig briwsion o Gymraeg yn unig i'r addolwyr.

Pan ddatlodd ef a Ceinwen hanner can mlynedd o fywyd priodasol, aeth y ddau a'r teulu yn ôl i Eglwys Sant Gwenfaen i wasanaeth byr i ddiolch am fywyd priodasol hir yn yr Eglwys lle y'i priodwyd. Gofalodd yn dda am Ceinwen.

Yn Eglwys Llanddeiniolen ar fore Sadwrn, 3ydd o Ragfyr, daeth cynulleidfâ deilwng i ffarwelio â'r gŵr tal, unionsyth a gosgeiddig. Yn gwasanaethu yr oedd y Canon Idris Thomas, Deiniolen; Y Canon R. Trefor Jones, Llandudno a Mr John Pritchard, Caernarfon, gyda Mrs Eurwen Darwood wrth yr organ.

Yn angladd ei briod, Ceinwen, yn yr un Eglwys un mlynedd ar ddeg yn ôl, adroddais englyn un o'i hoff feirdd, sef William Morris, ac addas oedd i mi ei hadrodd yn angladd Cledwyn:

A dau'n un, o un anian - unir hwy

Yn eu rhawd a'u hamcan:

Un mewn gwaith am oes weithian,

Dwyn yr Iau a Duw yn rhan.

Canon Idris Thomas, Deiniolen.

Derbyniwyd teyrngedau hefyd gan John H. Hughes, cyn brifathro Ysgol Dolbadarn, Dafydd Idriswyn, a'i dilynodd yn brifathro ysgolion Cwm y Glo a Llanrug, Beti Williams, y cyn Aelod Seneddol, a Ceri Williams, ei ferch. Nid oedd yn bosibl eu cynnwys i gyd oherwydd diffyg gofod. (Golygydd)

Dewch i goginio yn Deiniolen

Yn ystod y misoedd diwethaf cynhaliwyd cyrsiau ar baratoi a choginio prydau bwyd syml i famau ifanc pentref Deiniolen. 'Roedd 8 rhiant wedi cymeryd rhan.

Yn ystod y cyrsiau 'roedd creche wedi ei drefnu i edrych ar ôl y plant tra 'roedd y mamau yn coginio. Pwrpas y cyrsiau oedd dangos ffordd i goginio bwyd maethlon am bris rhesymol. Trefnwyd y cyrsiau gan Federasiwn Sefydliad y Merched Gwynedd/Caernarfon gyda arian gan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yr eiddoch yn gywir


Pat Jones (Rheolwraig y cynllun)

Fferm Cae Coch

Brynrefail

Caernarfon LL55 3PE.

Rhif ffôn 01286870589



Clwb Nadolig Efe

Roedd Y Canolfan yn Llanberis yn llawn prysurdeb a swm plant ddydd Llun, Rhagfyr 19, 2011 gyda 36 o blant yn mwynhau diwrnod o weithgareddau 'Nadolig Efe'.

Trefnwyd y cyfan dan nawdd Cynllun Efe, y genhadaeth Gristnogol i blant a ieuenctid pentrefi godre'r Wyddfa. Roedd yn ffordd arbennig iawn o ddechrau gwyliau Nadolig yr ysgol i'r plant, a

chafwyd diwrnod cyfan o ddysgu am y Nadolig trwy gyfrwng crefftau, gemau, canu a sgysiau am gymeriadau Stori'r Geni. Cafwyd hwyl fawr wrth weld pypedau ar y sgrin yn cyflwyno'r Stori yng ngeiriau cymeriadau fel Herod a'r bugeiliaid a'r doethion.

Roedd yn braf iawn gweld plant o sawl pentref yn y fro yn ymuno â'i gilydd yn yr hwyl. Roedd rhai ohonynt wedi gweld ei gilydd mewn gweithgareddau tebyg o'r blaen, ac eraill yn cyfarfod am y tro cyntaf. Ond ymunodd pawb yn y gweithgareddau gan fwynhau eu hunain yn fawr.

Trefnwyd y gweithgareddau gan Weithiwr Ieuenctid Cynllun Efe, Andrew Settatree. Roedd y canu yng ngofal Susan Williams, Ceunant; y gwaith

crefft yng ngofal Alun Ellis, Waunfawr ac Elin Roberts, Llanberis; a'r chwaraeon yng ngofal y Parchg John Pritchard. Cawsom amser da yng nghwmni'r plant, a diolchwn i Dduw am eu hymateb brwdfrydig i'r hyn a glywsant am eni'r Gwaredwr. Edrychwn ymlaen at gynnal gweithgarwch tebyg yn fuan eto.

Gweddiwch dros waith a chenhadaeth Cynllun Efe os gwelwch yn dda, ynghyd â mentrau a chenhadaethau tebyg ymhlith plant ac ieuenctid mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Gweddiwch yn arbennig dros y gweithwyr ifanc brwdfrydig sy'n arwain y gwaith hwn, iddynt gael eu calonogi a'u nerthu wrth gyflawni eu gwaith yn enw Iesu Grist.










www.a-v-w.co.uk
01286 673559
 GIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
 SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
 ARBENIGWVR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
 CEIR, CAMPERS A FANIAU




ARVONIA

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.



- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonibus.co.uk • Gwefan: www.arvonibus.co.uk

NEWID AELWYD. Croeso mawr i Mr a Mrs Dafydd Gibbard, Cian ac Erin, sydd wedi ymgartrefu yn Bryn Mair. Mae Mrs Persis James a'r teulu yn dymuno iddynt bob hapusrwydd, wedi byw yno am dros hanner canrif, ac mae Mrs James yn diolch am bob gofal bellach yng Nghartref y Foelas.

PEN - BLWYDDI AR BENNIG. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar ddathlu pen-blwyddi arbennig.

Mrs Eirwen Williams, Bryn Gro, Ffordd Glanffynnon, wedi cyrraedd ei 90 mlwydd oed. Cafodd ddiwrnod braf gyda'r teulu a llawer o ffrindiau a chymdogion yn galw i mewn i gael paned a chacen.

Mrs Menna Williams, Fferm Minffordd, wedi cyrraedd ei 70 mlwydd oed! Fyddai neb yn credu, wir Menna -

llongyfarchiadau.

Dymunwn longyfarch Mr Tecwyn Jones, Cae Rhos, yntau yn 70 oed ac yn dal i weithio'n galed iawn - amser rhoi y lori yn ei gwely?

Wedi cyrraedd 75 mae Mrs Mildred Williams, Crawiau. Pob dymuniad da i chi a phawb arall hefyd.

PROFEDIGAETHAU. Yn dawel, yn 97 mlwydd oed, bu farw Mrs Megan Pritchard, 3 Hafan Elan. Cydymdeimlwn yn arw â'r teulu i gyd, a'i chymdogion a ffrindiau.

Hefyd, cydymdeimlwn yn arw ag Eirianwen Thomas a Dylan Owen, plant Mrs Eurwen Owen, 10 Hafan Elan, a fu farw ar Ionawr 8fed. Anfonwn ein cofion at Dyfed a Catrin a'u plant a'r gweddill o'r plant a'u teuluoedd.

DIOLCH. Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Eurwen Owen,

10 Hafan Elan, ddiolch o galon i bawb am eu cydymdeimlad a'r caredigrwydd tuag atynt ar achlysur colli mam, nain a hen nain annwyl. Diolch hefyd am y rhoddion tuag at Feddygfa'r Felinheli a Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd, ac i'r Parch Marcus Robinson am wasanaethu'n yr angladd, a Gwynfor Jones (o E.W.Pritchard, Llanberis) am y trefniadau trylwyr.

COFION GORAU. Mae Dr Ceri Williams, merch Robin ac Evelyn Williams, wedi bod yn yr ysbyty ers wythnosau. Deallwn ei bod ychydig yn well erbyn hyn. Cofion gorau a brysia i wella, Ceri.

DAMWAIN. Yn dilyn y ddamwain erchyll ar y diwrnod cyntaf o'r flwyddyn lle bu i ddwy ferch ifanc farw, mae'r pentref wedi ei ysgwyd gyda'r drychineb. Gan fod y ddau deulu yn adnabyddus drwy wahanol gysylltiadau lleol, estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a diffuant atynt ac i'w ffrindiau lawer yn yr ardal.

Sefydliad Coffa

Ennillwyr y Clwb cant am Rhagfyr

1..Saron Owen, 56 Bro Rhyddallt

2..Mrs G Thomas, Gwenallt, Rhyddallt Terrace

3..Mrs M Griffith, 2 Hafan Elan Plaid cymru

1..Carrie Owen

2..Valmai Owen

CAPEL Y RHOS. Yn ystod gwasanaeth bore Sul, Ionawr 15fed, bedyddiwyd Ilan Siôn, mab bach Eleri a Siôn Arfon Stokes. Gweinyddwyd y bedydd gan y gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson a chroesawodd y teuluoedd i'r gwasanaeth. Pob bendith i'r teulu bach yn y dyfodol.

OEDFAON MIS CHWEFROR.

Chwefror 5: Y gweinidog

12: Parch Dafydd Ll. Hughes

19: Y gweinidog

26: Parch Trefor Jones.

PÊL BONBWS YR URDD.

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ennill yn ddiweddar:

Rhagfyr 17: rhif 12, Ioan Rogers, Minffordd;

Rhagfyr 24: rhif 19, Jean Williams, Minffordd

Rhagfyr 31: rhif 2, Huw Rogers, Minffordd

Ionawr 1: rhif 38, Robin Williams, Sŵn y Gwynt

Ionawr 14: rhif 33, Macsen Llwyd, Y Goedlan.

Diolch yn fawr i bawb am gefnogi'r apêl a fydd yn dod i ben nos Sadwrn, 25 Chwefror.

Os gwelwch yn dda, wnaiff pawb ddod â'r arian (£1 yr wythnos) i Mair Hughes, Glasgoed, cyn hynny.

HAFAN ELAN. Yr wythnos cyn y Nadolig, mwynhaodd trigolion Hafan Elan, ynghyd â ffrindiau a pherthnasau o'r pentref, ddau ddiwrnod arbennig iawn. Ar y dydd Mawrth, mwynhawyd cinio Nadolig blasus iawn a baratowyd ym Maesincla. Yn ystod y tymor ysgol paratoir y cinio gan Mrs Eurwen Williams a staff y gegin yn Ysgol Brynrefail. Maent yn cael pryd ardderchog yn wythnosol. Yn dilyn y cinio daeth côr o staff Cartrefi Cymunedol Gwynedd atynt i ganu carolau i gyfeiliant Anwen Roberts ar yr organ.

Gwerthwyd Raffl Nadolig a gwnaed elw o £100 ac fe'i cyflwynwyd i Ysgol Pendalar, Caernarfon. Enillydd lwcus yr hamper Nadolig oedd Mrs Mona Griffith, 2 Hafan Elan.

Yna, ar y dydd Mercher, paratowyd Bwffe Nadolig ardderchog iddynt. Unwaith eto, cawsant ganu carolau ac yna cawsant gêm o Fingo. Cafodd pawb anrheg gyda'u tocyn raffl ac roedd pawb wedi llwyr fwynhau y deuddydd arbennig yma.

Diolchodd Megan, Nant y Glyn, a Dilys, Hafan Elan, ar ran y criw i Bessie, y Warden, am ei holl garedigrwydd ar hyd y tymor ac am drefnu'r cyfan ar eu cyfer. Roedd gan Bessie, yn union fel Siôn Corn, nifer o 'gorachod' yn ei helpu - Andrea, Eryl, Sylvia, Anwen a Mair.

Cofiwch fod bore coffi yn y Ganolfan yn Hafan Elan bob bore Mercher am 10.15 a gêm o Fingo wedyn. Mae croeso i unrhyw un ymuno gyda'r criw hwyliog!



BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

CERIS JONES

Teglan,
Stad Talybont
LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanig profiadol iawn
- Prisïau cystadleuol

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

YSGOL GYNRADD

Dechrau trist a gawsom fel ysgol i ddechrau'r flwyddyn 2012 gan i ni dderbyn newyddion fod Sasha (cymhorthydd ym Mlwyddyn 2) wedi ei lladd mewn damwain car ym mhentref Llanrug. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda'r teulu a chofiwn Sasha yn ein calonnau.

TEYRNGED I SASHA

Daeth Sasha i'n plith yn un ar bymtheg oed yn eneth swil a diymhongar. Ymgartrefodd yn sydyn hefo'r staff a'r plant, a'r plant wrth eu boddau ac yn ei pharchu, a hithau yn gwybod yn union sut i'w trin. Datblygodd o fewn y flwyddyn yn gymhorthydd gwerth chweil, a chwblhau ei chwrs yn llwyddiannus.

Oherwydd ei llwyddiant a diddordeb yn y plant, ac wedi i Sasha benderfynu mai dyma oedd ei llwybr gyrfa, penderfynodd fwrw 'mlaen i wneud cwrs pellach. Roedd ei hail swydd o fewn yr ysgol yn bwysig iawn hefyd iddi fel gofalwr y plant yng Nghlwb y Grug. Mawr oedd ei gofal dros y plant a hithau yng ngofal yr arlwygo!! Dipyn o lanast oedd yn yr ystafell athrawon ar ôl i Sasha fod wrthi hefo'r 'Cream Crackers' a'r caws!! Ond roedd pawb yn siŵr o gael eu digoni!

I grynhai, Sasha roedd yn eneth gymwynasgar a phawb yn ffrindiau hefo hi. Wrth edrych ar ei henw mae'r ddwy lythyren olaf sef H ac A yn cyfleu ei chymeriad i ni yn Ysgol Gynradd Llanrug, yn staff a phlant, sef Hapus ac Annwyl.

Wnawn ni fyth anghofio'r wên.

Bu Plant Blwyddyn 5 a 6 yn ffilmio'r rhaglen deledu 'Cwis mwyaf Cymru' yn Galeri, Caernarfon. Cawsant hwyl fawr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o gemau lloerig.

MERCHED Y WAWR

Nos Fawrth, 13 Rhagfyr, aeth criw hwyliog i ddathlu'r Nadolig i'r Hen Lechan, Y Felinheli. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Bethanne, a diolchwyd i bawb a gymerodd ran yn y Cwis Cenedlaethol a braf oedd llongyfarch y buddugwyr, sef Penrhosgarnedd, Rhanbarth Arfon, gyda 73 o farciau. Atgoffir pawb am y cwrs Crefft y Gogledd i'w gynnal yn Plas yn Dre, Bala, ar Sadwrn, 21 Ionawr o 10.00 o'r gloch i 4.00 y pnaun.

Cynhelir Distawrwydd Noddedig ar 20 Ionawr tuag at Urdd Cyfeillion Ysbyty Eryri. Diolchwyd i Carys Wyn am drefnu'r noson arbennig yn yr Hen Lechan, roedd pawb wedi mwynhau'r bwyd amheuthun ac yn union fel barn Alison Taylor yn 'Taste Test' y Daily Post. Llongyfarchiadau mawr i'r cogydd, Tomasz Wyroba a diolch i'r staff am eu gwasanaeth cyfeillgar.

Nos Fawrth, 10 Ionawr, estynnwyd croeso cynnes i bawb a dymunwyd Blwyddyn Newydd fendithiol i bawb gan Bethanne. Cychwynwyd gyda Cân y Mudiad. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn ag Eirianwen o golli ei mam. Anfonir ein cofion annwyl at Margaret Parry wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd Menna ar gyrraedd pen-blwydd arbennig a llongyfarchiadau brwd i Myfanwy a Dic ar achlysur eu Priodas Aur ar 3 Ionawr. Pob hwyl i'r aelodau gyda'r Bowllo Deg. Cynhelir Taith i Gaerdydd a'r Ardd Fotaneg ar Ebrill 27 a 28, tâl £40 - enwau rhag blaen os oes gennych ddiddordeb. Y mae 6 aelod wedi gwirfoddoli i helpu ym Mhabell Merched y Wawr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar 4 Mehefin.

Sioe Tudur Owen. Os ydych yn ysu am gael noson allan yng nghwmni ffrindiau neu'n chwilio am rywle rhad i fynd i fwynhau llong bol o chwerthin, yna bydd Sioe Tudur Owen o ddiddordeb i fudiadau neu unigolion. Dim ond £3 y tocyn a'r elw o werthiant y tocynnau yn mynd i Hosbis yn y Cartref Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r noson yn addas i rai dros 16 oed. Dyddiadau: Gwener, 10/2; Sadwrn 11/2; Sul 12/2; Llun 27/2; Mawrth 28 a 29. Caffi'r Urdd, Eisteddfod Cylch.

Cynhelir yr Eisteddfod Cylch ar Sadwrn, 25 Chwefror - mae taflen Addewidion Bwyd ar gal gan Gwenda.

Anfonir ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Berian Elias, mab Edward a Wena, sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl.

Daeth y newydd trist am farwolaeth annisgwyl cyn-Brifathro Ysgol Brynrefail, Llanrug, sef Elfyn Thomas. Cydymdeimlir â'r teulu oll yn eu colled fawr.

Gŵr gwadd y noson oedd y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda, cyn-athro yn Ysgol Gynradd Llanrug, gwladgarwr a dyn ei filltir sgwâr. Testun ei sgwrs oedd 'Rhamant Enwau Lleoedd'. Pwysleisiai y dylai pawb ohonom ddiogelu enwau'r caeau, creigiau, lonydd, llwybrau, afonydd a'r nentydd - llefydd sy'n llawn hudoliaeth. Dylid cofnodi enwau'r llefydd hyn er mwyn eu trosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Gwyddai'r Hen Gymry ystyr holl eiriau llefydd a hynny'n fanwl. Gwyddent arwyddocâd enwau'r llefydd a chyplwyd enw lle yn aml ag enw pobl a chreaduriaid. Meddai rhai enwau swyn rhythmau a seiniau cerddorol persain. Cafwyd eglurhad ar enwau nifer o lefydd yn Nyffryn Ogwen a Dyffryn Peris ganddo a braf deall fod cymdeithas wedi'i sefydlu i warchod rhamant enwau lleoedd ein broydd hardd achos, fel y dywed R. Williams Parry yn ei soned 'Adref', 'Digymar yw fy mro drwy'r cread crwn' ac fe wyddom ninnau ym Mro'r Eco 'Os cawn ninnau fryn.

A mawndir a phabwyr a chraig allyn

ei bod hi'n ddyletswydd arnom i drosglwyddo rhamant enwau lleoedd ein bro i'n plant ac i blant ein plant.

Diolchwyd i Ieuan Wyn am sgwrs hynod ddifyr ac addysgiadol.

Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Ffreutur yr Hen Friars, Coleg Menai, ar 13 Mawrth am 6.30 o'r gloch. A ffrasech garediged â thalu £12 yn y cyfarfod nesaf ar 14 Chwefror os gwelwch yn dda? Y gŵr gwadd fydd Gwilym Evans yn sôn am 'Olew Morris Evans'.

Diolchwyd i genod Penisarwaun am wneud y baned ac enillydd y raffl oedd Margaret Parry.

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Car
- Yswiriant Teithio
- Nwy a Thrydan
- Larymau Personol
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am-5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products

AGE
Concern

ageUK

Darparir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darparir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan
gylundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau
masnachol, rhoddor yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linkay House, Ashburton,
Devon TQ13 7YP. 01297 71110
MP2430VZAPR11 SLO31616_11_1

2012. Dymuniadau gorau ar gyfer y Flwyddyn Newydd oddi wrth Dîm yr Eco yng Nghaeathro. Mae Bethan Iwan, Carrog, yn dosbarthu'r Eco yn ardal Rhos-bach ac Aled Thomas, 3 Stad Glandŵr yng gweddill Caeathro a chyffiniau. Os nad ydych yn barod yn derbyn copi i'ch drws pob mis, beth am danysgrifio trwy gysylltu ag un ohonynt?

Casglwr y newyddion yw Clive James, Hafan (gerllaw Tafarn Bryngwna). Y ffordd orau i gyflwyno eitemau ar gyfer eu cynnwys yn yr Eco yw ar bapur trwy ei flwch llythrau!

CYDYMDEIMLAD.

Anfonwn eincat James, Hafan, a'i frawd Robin yn yr Iseldiroedd, adeg marwolaeth eu tad cyn y Nadolig a'u mam

ddechrau'r flwyddyn. Roedd Peter a Selia James yn ymwelwyr i Gaeathro ddwywaith y flwyddyn am 35 o flynyddoedd.

GWYLIAU MAWR. Croeso adra i Zonia Bowen, Stad Glyndŵr, o'i gwyliau anturus dros droad y flwyddyn 'r India ac Asia.

NEWYDDION Y CAPEL. Cynhelir y cyfarfodydd canlynol ym mis Chwefror:

Sul 5ed: 11:00 Ysgol Sul; 2:00 Gweinidog. [Cyfarfod y swyddogion i ddilyn.]

12fed: Dim Oedfa nac Ysgol Sul [Hanner Tymor.]

19eg: 2:00 Oedfa deuluol o dan arweiniad Mr Dafydd Iwan

26ain: 11:00 Ysgol Sul.

CANU CAROLAU. Cyfanswm y casgliad noson y Canu Carolau oedd £48.92. Bydd yr arian yn cael ei roi at yr Ambiwylans Awyr.

TYNFA FISOL Y GYMDEITHAS CAE CHWARAE. Enillwyr y Dynfa Fisol ar gyfer mis Ionawr oedd:

1af: £40, rhif 03, Dilys a Bryn Griffiths, Delfryn;

2il: £25, rhif 14, Dan Jones, Gwêl y Môr;

3ydd: £15, rhif 01 Bethan Iwan, Carrog;

4ydd: £5, rhif 58, Sandra Roberts, 5 Bryn y Gof.

— ANGEN — 3 Cynorthwywr Personol YN LLANRUG

Bydd y 3 yn rhan o Dîm fydd yn cefnogi dyn 45 oed, defnyddiwr cadair olwyn, gyda'i holl anghenion personol. bywyd dyddiol a'i weithgareddau cymdeithasol.

RHAID I'R YMGEISWYR FEDRU GYRRU, A DIM YN YSMYGU

SWYDD 1+2 3 DIWRNOD YR WYTHNOS 8am-8pm 32½ awr

SWYDD 3 1 DIWRNOD YR WYTHNOS 8am-8pm 10½ awr

CYFLOG-£7.50 yr awr

CV a gwybodaeth drwy e/bost i- hugeas@gmail.com
NEU CYSYLLTWCH A RHIF FFON SYMUDOL 07857890705

Cefnogwch ein hysbysebwr

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y prawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau reteniwr (Gaffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llundropio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

**Caban
Cyf**



Ffôn/Ffacs:

(01286) 872882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

Ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan Artistiaid

Lleol

Richard S. Humphreys

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



DIOLCH. Dymuna Kathryn, Dafydd a Siân, Y Ddolwen, a'r teulu ddiolch i bawb o fro'r Eco am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth o golli Gwilym. Maent wedi colli gŵr, tad a thaid oedd yn annwyl iawn iddynt ar ôl brwydr ddewr ac mae bwch enfawr ar aelwyd y Ddolwen. Diolchwn am y gofal arbennig gan Feddygon a Staff Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r Parchedigion Gwynfor Williams ac Eric Jones am eu cefnogaeth a'u harweiniad ddydd yr angladd; i Arwel Jones am ei deyrnged wych i Gwilym; i Mrs Glenys Griffith, yr organyddes, ac i'r tri chôr, sef Nantlle, Bangor a Dyffryn Peris am eu cyflwyniad arbennig. Bu'r cyfan yn gysur mawr i'r teulu. Diolch hefyd i Mr Dylan Griffiths am ei drefniadau trylwyr ac urddasol.

DIOLCH. Mae Mrs Eunice Roberts, Stad y Rhos, yn diolch o galon i gymdogion a chyfeillion am bob cefnogaeth a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl.

DYMUNA Mair, 13 Tan y Buarth, ddiolch o galon i'w chymdogion a ffrindiau yn Neiniolen, am bob arwydd o gydymdeimlad ar ôl y brofedigaeth o golli ei brawd, Berwyn Williams o Lanfairfechan. Bydd y rhoddion yn mynd tuag at 'Uned yr Arennau Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU. Hoffai teulu a ffrindiau Gwawr Hughes Owen, 6 oed, o Gacau Gleision, Rhiwlas, wyres Eirlys, Bro Rhos, Bethel, ddyuno

llongyfarchiadau mawr iddi ar ddod yn laf am ganu ac adrodd yn erbyn nifer o blant yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Hefyd ar ennill y gwpan am fod y mwyaf addawol am adrodd ar y diwrnod, sy'n dipyn o gamp i blentyn o'i hoed.

C R O N F A MYNWENT EGLWYS LLANDDEINIOLEN. Carem ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniad tuag at gostau cynnal a chadw Mynwent St Deiniol, Llanddeiniolen, am y flwyddyn 2011:

Pricilla Ann Williams, Cilgwyn: £50; Mrs A. Lowe, Bae Colwyn: £100; Mrs Katie Hughes, Coed Bolyn Lodge: £20; Mr Gwynedd Hughes, Southport: £20; Mrs Ruby Harrison, Bakhita: £120; Mrs Ann Hughes, Y Bwthyn, Llanrug: £10; Mrs Phyllis Jones, Hafon Lon, Rhiwlas: £10. Mr a Mrs J.M. Griffith, Llwyn Eithin: £20; Mrs Marjorie Roberts, Tŷ Newydd: £10; Mrs Meira Griffith, Crud yr Awen: £20; Mr a Mrs Elwyn Jones, Fachell: £20; Mr R.A. Jones, Rhandir Mwyn, Penrhos: £20; Teulu Y Gelli: £50; Mr a Mrs Ieuan Williams, Llain yr Ardd: £10; Mrs Mair Jones a Myfanwy Harper: £40; Mr a Mrs C. Thomas, 68 Stryd Bangor, Y Felinheli: £10; Mrs Elsbeth Edwards, Caerdydd: £25; Mr a Mrs Danny Humphries, Is Helen: £10; Mr a Mrs John Evans, Pen Parc: £10; Mr Ieuan Ellis Jones ac Mrs Ann Ellis Williams, Y Ddolwen Fach: £20; Mrs Edith Jones, Cae Mawr, Trefor: £10; Mr a Mrs Brian Sharpe, Ael y Bryn: £20; Mrs Ann Hughes, Llanbedrgoch: £10; Mr a Mrs

H.P. Hughes, Llugwy: £20, ynghyd â rhodd di-enw.

Mae costau cynnal a chadw Mynwent y Plwyf yn codi yn flynyddol ac rydym yn dibynnu yn fawr iawn ar gyfraniadau fel yr uchod.

Derbynnir yn ddiolchgar tuag at y gost uchod trwy law y Trysorydd: Mr Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel, Caernarfon LL55 3AA. Sicciau yn daladwy i 'Cronfa Mynwent Llanddeiniolen'.

YSGOL SUL Y CYSEGR. Daeth cynulleidfa niferus i gefnogi'r plant wrth iddynt gyflwyno 'Pos y Nadolig' - gwasanaeth wedi ei selio ar ddatrys pos. Croesawyd pawb ynghyd gan Myfanwy Harper, Arolygwr yr Ysgol Sul, a diolchodd i'r athrawon am bob cymorth yn y paratoi ac i Edwina Morris am addurno'r Capel. Wrth i'r plant lefaru pennill fesul un a dangos cerdyn Nadolig i bawb fe ddaeth neges y pos yn gliriach. O'r holl gardiau lliwgar doedd dim un yn dangos Iesu Grist yn y preseb, felly, wedi i'r plant lleiaf orymdeithio o amgylch y Capel, cafwyd golygfa yn portreadu Mair, Joseff, Angylion, Bugeiliaid a'r tri Brenin. I gloi'r gwasanaeth bu i'r holl blant gyd-ganu 'Canwn Ninnau Hapus Gân'. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd darlenniadau o'r Beibl, eitemau ar y Cornet gan Elen, deuawd gan Heledd a Gwenllian, a chanu cynulleidfaol. Cyflwynir cyfanswm y casgliad rhydd, sef £153.00, i Dŷ Gobaith. Yn dilyn, fe aeth pawb i'r Festri i fwynhau parti bach a chael ymweliad gan Siôn Corn.

CAPEL Y CYSEGR bore Dydd Nadolig. Braf oedd cael ymuno mewn Gwasanaeth Cymun ar fore'r Nadolig yng nghwmni'r Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Roedd nifer fawr wedi troi allan i ddathlu Gŵyl y Geni ac ychwanegwyd at naws y Gwasanaeth gan Grŵp Pres, dan ofal Hefin Evans, yn cyfeilio i'r Carolau a'r emynau a chyflwyno datganiad ar gychwyn y Gwasanaeth. Cyflwynir cyfanswm y casgliad rhydd, sef £135.00 i Dŷ Gobaith.

C Y M D E I Y H A S LENYDDOL:

Croesawyd nifer dda o aelodau ynghyd gan y Llywydd Dr. J. Elwyn Hughes i gyfarfod mis Ionawr o'r Gymdeithas. Un o blant y pentref oedd yn annerch, sef Lynn Francis (Roberts gynt). Mae Lynn yn gweithio yn yr Archifdy yng Nghaernarfon a hi bellach ydi Prif Archifydd Cyngor Gwynedd, ac mae hi'n gyfrifol am un o'r adrannau mwyaf diddorol a phwysig yn y sir.

Gyda chymorth lluniau cododd y llen ar amrywiol ddogfennau hanesyddol sydd i'w cael yn yr Adran gan ddangos sut i olrhain hanes teuluoedd ac achau a rhannwyd gwybodaeth am sut oedd pobl yn byw yn y cylchoedd hyn flynyddoedd yn ôl.

Diolchwyd iddi yn gynnes iawn am noson hynod o ddiddorol gan y Llywydd ac hefyd i'r merched a fu'n paratoi'r baned.

Un o blant Bethel fydd yn annerch eto y tro nesaf a hynny nos Fawrth Chwefror 21, sef Dr. Angharad Price.



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn: 01286 870462
Symudol: 07962 712368

Gymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!



FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.ffmpegia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriol ac ar y wfan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestrddig 1066851 - Cofrestrwyd yng Nghymru - Cwmni Cyfyndedig drwy Ymerant 3420271

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant - Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m. - 7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m. - 3 p.m. (Sul)

MERCHED Y WAWR

Nos Fercher, 14 Rhagfyr, aeth tri deg a thri o aelodau'r gangen i Gardd Fôn, Y Felinheli, am bryd o fwyd i ddatlu'r Nadolig.

Croeswyd pawb yn gynnes iawn gan Rita cyn symud ymlaen i sôn am lwyddiant yr Eisteddfod bentref, gan longyfarch y swyddogion ac yn arbennig y plant a'r bobl ifanc am y wledd. Soniodd hefyd am y ddau gyngerdd arbennig yn Ysgol Bethel ac Ysgol Brynrefail, lle roedd nifer fawr o blant y pentref yn cymryd rhannau amlwg a chanmoladwy iawn.

Llongyfarchwyd yd cangen Penrhosgarnedd ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth y Cwis Hwyl Cenedlaethol gan ddiolch hefyd i'r rhai aeth i'r cwis i gynrychioli cangen Bethel.

Braf oedd deall am lwyddiant Dewi, mab Glenys, ar un penwythnos yn ddiweddar. Cafodd ei enwi fel Arweinydd y Flwyddyn (Cynghair Bandiau De Orllewin Cymru) yn dilyn Band Melingriffith 2 yn dod yn Bencampwr Prydain, yn ogystal ac ennill pob cystadleuaeth eleni. Y dydd canlynol teithiodd gyda Band Tref Tredegar i fyni i Gateshead i gystadlu ac, ar

ddiwedd y dydd, dyfarnwyd iddo wobwr prif gornedydd gorau. Llongyfarchwyd hefyd Heledd, wyres Gwyneth Price, ar ei llwyddiant hithau gyda Band Deiniolen.

Dau sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar yw Mrs Nancy Owen, mam Ann a Sharon, hefyd Steffan, wŷr Anne Elis. Dymunwyd adferiad iechyd buan iddynt. Dymunwyd yn dda hefyd i Nancy, sydd yn mynd am lawdriniaeth yn ystod mis Ionawr.

Anfonwyd ein dymuniadau gorau a'n cofion at Eryl, gyda chyfarfodion i Dilwyn ar ei ymddeoliad a chydymdeimlwyd â Joyce yn ei phrofedigaeth o golli perthynas agos.

Mae Pwyllgor Anabl Merched y Wawr eleni yn cefnogi Urdd Cyfeillion Ysbyty Eryri ac, yn mis Ionawr, fe fydd Glenys ac Eirlys yn cymryd rhan yn y Tawelwch Nodedig am gyfnod o ddwy awr. Gofynnwyd yn garedig ar i aelodau'r Gangen eu noddi.

Ar ôl y cinio cafwyd cwis ysgafn a diolchodd Rita i staff y gwesty; i swyddogion y gangen; i'r Cyngorydd Huw Hughes am ei rodd garedig

iawn tuag at y raffl ac i rai o aelodau'r pwyllgor am y raffl a dymunodd Nadolig Llawen i bawb.

Enillwyd y raffl gan Mary, Dilys, Anwen, Gwyneth Jones, Gwyneth Williams ac Eirlys Sharpe.

Agorwyd y cyfarfod nos Fercher, Ionawr 11, drwy ganu Cân y Mudiad. Croesawyd pawb yn gynnes i gyfarfod cyntaf 2012 gan Rita a dymunodd Flwyddyn newydd Ddedwydd iawn i bawb.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Eryl Roberts ar ôl derbyn triniaeth yn ddiweddar gan ei llongyfarch hi a Dilwyn ar ddod yn daid a nain i Math. Hefyd llongyfarchiadau i Jen gan iddi hi a Meic ddod yn daid a nain am y tro cyntaf i Erin. Anfonwyd cofion at Ann a Sharon, gan ddeall fod eu mam, sef Mrs Nancy Owen, yn yr ysbyty ac i Delyth gan fod ei thad hithau, sef Mr Dafydd Williams, yn yr ysbyty hefyd.

Gan fod cyfarfod wedi bod yn ddiweddar gyda Mr Huw Hughes, ein Cyngorydd, ynghyd â cynrychiolwyr o'r gwahanol fudiadau yn y pentref i drafod Cynllun Datblygu Lleol, darllenwyd ychydig o'r uchafbwyntiau o'r adroddiad

yn dilyn y cyfarfod hwnnw. Rita ac Ellen a fu yno ar ran Cangen Merched y Wawr. Roedd yr adroddiad ar gael i bawb ei darllen ac i gynnig syniadau.

Cyhoeddwyd manylion am weithgareddau o fewn y Mudiad, sef cystadlaethau yr Wyl Haf a'r Cwrs Preswyl Ysgrifennu ym Montnewydd ym mis Ebrill, ynghyd â gweithgareddau eraill sydd ymlaen yn y gymuned.

Elliw Glyn, Swyddog Datblygu De Arfon i Fwrdd yr Iaith Gymraeg oedd cin siaradwraig ac estynnwyd croeso cynnes iddi. Cafwyd cyflwyniad a gwybodaeth ynghyd â braslun o hanes yr Iaith, cefndir hanesyddol Cymru a'r pwysigrwydd o ddefnyddio'r Gymraeg. Derbyniwyd gwybodaeth am rifau cyswllt gwasanaethau sydd yn cynnig cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Talwyd y diolchiadau gan Jen. Diolchodd Rita i Bet am drefnu'r baned ac i Anwen, Falmai ac Alys am baratoi. Enillwyd y raffl gan Eirlys Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, 8 Chwefror, pan y cawn gwmni Buddug Jones i siarad ar Gŵn Tywys y Deillion.

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

Cydnabyddir cefnogaeth

Nodir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG - WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD


CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01206) 674103
(0589) 899901

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partion rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

**JOHN BRYNAFON
LLANRUG**

Y DYNDIG # 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

Gwefan: www.ydyncig.co.uk

EGLWYS ST GABRIEL. Ar 13 Rhagfyr, yn Eglwys St Padarn, Llanberis, yr oedd gwasanaeth sefydlu ein Ficer Mewn Gofal newydd, sef y Parchedig Dr Carol Roberts. Yr oedd y gwasanaeth dan ofal y Gwir Barchedig Andrew John, Esgob Bangor. Croeso cynnes i'r Parch Dr Carol Roberts a'i gŵr, Mr Dafydd Roberts, i'n plith.

CAPEL Y TABERNACL. Nos Fawrth, 13 Rhagfyr, cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Plant Ysgol Cwm-y-glo a hyfryd oedd gweld y capel yn llawn. Diolch i'r Prifathro, Mr Garem Jackson, a'r athrawesau

a phawb oedd yn gofalu ac wedi hyfforddi'r plant a sicrhau gwisg arbennig i bob plentyn. Diolch i'r plant hwythau am eu gwaith canmoladwy. Dathlwyd Gŵyl y Geni gan yr aelodau nos Sul, 18 Rhagfyr. Roedd y gwasanaeth yng ngofal ein gweinidog, Y Parch Gwynfor Williams. Gweinyddwyd Sacrament y Cymun.

CYDYMDEIMLAD. Yn dawel yn ei gartref, Clawdd Cerrig, ar 5 Ionawr, bu farw Peter Treharne Bursnall yn 45 mlwydd oed wedi brwydr hir a dewr yn erbyn salwch blin. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Aila, a'r plant

Owen a Rhiannon a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

ADFERIAD BUAN. Anfonwn ein cofion at Meirion Williams, Elidir View, Bwlch, ar ôl dod adref wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

UNDEB Y MAMAU. Ail ddechreuwyd ein cyfarfodydd am y tymor bawn Mawrth, 17 Ionawr, yn Eglwys Sant Mair Caernarfon. Agorwyd y cyfarfod gyda gwasanaeth o weddi yng ngofal Mrs Auriel Howells. Croesawodd Auriel pawb, yr oedd amryw o'r aelodau yn absennol oherwydd salwch ac anfonwyd dymuniadau am wellhad buan

iddynt. Trafodwyd materion perthnasol. Bydd y cyfarfod blyneddol yn cael ei gynnal ar 16 Mehefin, rhwng 10.30-3.30 yn Venue Cymru Llandudno a'r gwasanaeth yn cael ei gynnal yn y Gadeirlan Bangor, nos Wener 15fed Mehefin am 7.30 o'r gloch. Mae angen ticedi i'r ddau achlysur, felly enwau i Auriel cyn gynted ac sydd bosib. Cafwyd paned a sgwrs ac enillwyd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan y gwesteion, gan Kath Jones. Terfynwyd trwy adrodd y gras. Cyfarfod nesaf 21 Chwefror yn Feed my Lambs.

DINORWIG Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291



DECHRAU'R FLWYDDYN. Ganein bod yn wnebu ar flwyddyn newydd, ga i ddyuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Er ein bod yn gwybod na fu blwyddyn 2011 yn rhy garedig i rai yn yr ardal, yr ydym yn dymuno iddynt flwyddyn lawer gwell eleni. Ar ddechrau blwyddyn newydd fel hyn yr ydym yn anfon ein cofion at Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir gynt, sydd yn cartrefu erbyn hyn yn Plas Pengwaith, Llanberis, gan obeithio ei bod yn cadw yn weddol ac yn barod am y flwyddyn newydd. Dymunwn bob bendith ac iechyd yn y flwyddyn newydd ma.

GWELLHAD. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae llawer o gwyno yn yr ardal a llawer wedi bod i mewn ac allan o Ysbyty Gwynedd. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt oll.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs Yvonne Brennan, Afallon, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 91 ar 22 Rhagfyr.

NEWID CARTREF. Pob dymuniad da i Mr a Mrs Rowland Williams, 10 Bro Elidir, sydd yn symud i fyw i Isallt, Stryd Fawr, Deiniolen. Gobeithio y cânt iechyd a hapusrwydd yn y cartref newydd.

DYMUNWN adferiad llwyr i Marian W. Jones yn dilyn ei hanffawd diweddar. Dymuniadau gorau oddi wrth ei ffrindiau a'i chymdogion.

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**

BRYNREFAIL Mrs Lowri Prys Roberts-Williams. Ffôn: 870580



SEFYDLIAD Y MERCHED. Bydd aelodau y gangen leol yn ymuno â changhennau Grŵp Eryri o Sefydliad y Merched yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis nos Iau, Chwefror 9fed. Y gŵr gwadd fydd y Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel. Fel un a gymerodd ran yn ddiweddar yn y ddrama deledu 'Snowdonia 1890' bydd yn rhannu ei brofiad a'i atgofion o'r cynhyrchiad â'r aelodau.

YREGLWYS BRESBYTERAIDD

OEDFA'R NADOLIG. Cynhaliwyd oedfa i ddathlu Gŵyl y Geni brynhawn Sul, Rhagfyr 18fed, gyda nifer cryno o'r aelodau wedi dod ynghyd. Roedd y gwasanaeth wedi ei drefnu gan lywydd y mis, Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog. Cymerwyd rhan gan Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Lowri Roberts Williams, Irfon Ellis, Dwynwen Williams, Dafydd G. Ellis a Jennie Angharad Roberts. Roedd nifer o aelodau na allent gymryd rhan eleni oherwydd anhwylderau, naill ai gartref, mewn ysbyty neu gartref preswyl. Anfonwyd cofion atynt oll a dymuniadau gorau yr Eglwys dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Ar y terfyn cafodd pawb oedd yn bresennol gyfle i gymdeithasu dros luniaeth yng nghaffi Caban.

OEDFAON CHWEFROR

- yr oll am 5.30 yr hwyr.

- 5: Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
- 12: Parch Harri Parri, Caernarfon
- 19: Parch W.R. Williams, Y Felinheli
- 26: Mr Robert M. Morris, Penygroes.

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

E. LL. PARRY M.S.S.CH M.B.CH.A

**CHIROPODIST
HPC COFRESTREDIG**

GWASANAETH
YN EICH CARTREF

Ffôn LLANRUG
675754

Y DDawns Flodau.

Urddwyd seremoni Cadeirio'r Bardd yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail gan ddawns flodau a berfformiwyd gan enethod o Ysgol Deiniolen. Er yr awr hwyr yr oedd hwn yn berfformiad cywir a gloyw a wefreiddiodd y gynulleidfa.

Mae Ysgol Brynrefail yn ymwybodol iawn o'r holl ymarfer sydd raid ei wneud i gyrraedd y fath safon ac felly yn ddiolchgar dros ben i staff a rhieni Ysgol Deiniolen am eu gwaith paratoi. Ond, wyddoch chi be? Mae'r diolch mwyaf yn mynd i enethod y ddawns flodau. Genod roeddech yn 'sbesial'.



DYMUNA Mrs Beryl Griffiths ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a gofawyr am yr holl anrhegion defnyddiol a chardiau a dderbyniodd yn ystod y Nadolig. Dymuna Flwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

DIOLCH. Dymuna Eurwen a Brian, Selwyn ac Olwen, teulu y ddiweddar Jennie Eurwen Goldsworthy, 34 Hafod Oleu, ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn marwolaeth eu hannwyl fam.

Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at Gymdeithas Cyfeillion Ysbyty Eryri ac Ymchwil Cancr. Diolch i'r Parchedig John Pritchard, Brian Wright ac Olaf Davies am eu gwasanaeth ar ddydd yr angladd. Diolch arbennig i'r gofawyr dyddiol, Cwmni Cymorth Llaw, pawb ym Meddygfa Deiniolen a chymdogion agos am eu caredigrwydd dros y

blynyddoedd diwethaf, hefyd i'r Ymgymwrwr, Dylan Griffith, Penisarwaun am ei drefniadau trylwyr.

DIOLCH. Dymuna Albert Parry ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd arbennig ar ddiwrnod cynta'r flwyddyn eleni.

DYMUNA Mair, 13 Tan y Buarth, Bethel, ddiolch o galon i'w chymdogion a ffrindiau yn Neiniolen am bob arwydd o gydymdeimlad ar ôl y brofedigaeth o golli ei brawd, Berwyn Williams o Lanfairfechan. Bydd y rhoddion yn mynd tuag at 'Uned yr Arennau Ysbyty Gwynedd'.

C R O N F A YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLEN. Cyfarfu'r aelodau ar 18.12.11. Derbyniwyd 6 cais am gymorth, a dyfarnwyd cyfraniadau fel a ganlyn: Clwb Pêl-droed Ieuenctid

Deiniolen: £100; Merched y Wawr: £150; Clwb Snwcer Deiniolen: £400; Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch: £200; Seindorf Arian Deiniolen: £700; Ysgol Feithrin Deiniolen: £250. Yn ogystal, penderfynwyd rhoi £100 tuag at daith parti canu Lleisiau Llanbabs i'r Wyl Ban-Geltaidd yn yr Iwerddon yn ddiweddarach eleni.

YSGOL SUL UNDEBOL DEINIOLEN

Y plant a gymerodd ran yng ngwasanaeth Nadolig yr ysgol Sul, adroddwyd hanes y geni gan y plant yn ardderchog a chymerodd pawb ei ran yn wych, sef Alis, Beca, Ella, Jac, Gwion Llewelyn, Gwion Wyn, Beca, Prys, Glain, Cian a Rhun. Diolch hefyd i Catrin Llewelyn am gyfeilio yn ystod y gwasanaeth.

LLEISIAU LLANBABS. Mae ymdrechion codi arian tuag at y daith i'r Wyl Ban-Geltaidd yn Iwerddon yn parhau, gyda nifer o weithgareddau wedi eu trefnu

ar gyfer y misoedd nesaf.

Gwerthfawrogi cefnogaeth tuag at yr ymgais i godi arian er mwyn mynd â phlant y pentref i'r Wyl ar gyfer y profiad bythgofiadwy yma. Cysyllter â Lyndsey neu Eleri os gellir cynnig unrhyw gefnogaeth tuag at y daith.

CYDYMDEIMLIR gyda theulu a ffrindiau Jamie Lee Fleming a fu farw'n frawychus o sydyn yn ddiweddar.

CYNGERDD CAROLAU.

Ar brynhawn Sul, 18 Rhagfyr, cynhaliwyd Cyngerdd Carolau gyda Seindorf Arian Deiniolen, Côr Meibion Dyffryn Peris a Pharti Plant Ysgol Dolbadarn yn Mynydd Gwefru, Llanberis. Gwnaed casgliad ariannol i gynorthwyo Meddygfa Llanberis, Llanrug a Deiniolen yn ystod y prynhawn.

Mae'r Trefnwyr yn diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth; fe gasglwyd v200 at yr achos. Mae'r Feddygfa wedi anfon llythyr o ddiolch i bawb a gymerodd ran yn trefnu prynhawn mor llwyddiannus.

MERCHED Y WAWR

Dechreuwyd cyfarfod mis Tachwedd trwy ganu Cân y Mudiad, yna croesawyd pawb ynghyd gan Brenda, yr is-Lwydd. Ymddiheurodd ar ran rhai o'r aelodau nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Trafodwyd rhai materion oedd yn ymwneud â'r mudiad ac anfonwyd cofion at rai o'r aelodau oedd ddim yn dda. Croesawyd y gŵr gwadd, sef Mr Guto Thomas, yn olrhain hanes ac yn dangos sleidiau o

Ynys Enlli. Difyr iawn oedd ei sgwrs, yn enwedig i'r rhai ohonom oedd wedi ymweld â'r ynys. Ar 19 Tachwedd, aeth tri thim o'r gangen i gystadlu yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol yng Ngwesty Seiont Manor, Llanrug. Er na fu llwyddiant, mwynhawyd y noson yn fawr iawn a charai yr aelodau longyfarch Cangen Penrhosgarnedd ar ddod yn fuddugol drwy Gymru gyfan. Treuliwyd cyfarfod mis


Rhagfyr yng Ngwesty Padarn Lake, Llanberis, lle cafwyd cinio Nadolig ardderchog a diolch i Margaret Ellen ac Eirian am ei drefnu. Drwg iawn oedd gennym glywed am anffawd Mona sydd wedi cael damwain a thorri ei braich. Edrychir ymlaen at y cyfarfod nesaf pan glywir tipyn o hanes rhai o'r aelodau a fu ar daith ym Mhatagonia yn ddiweddar. Dymuna'r aelodau Flwyddyn newydd Dda i bawb.

Er cof am Elfyn Thomas

Cyn-brifathro Ysgol Brynrefail

Ŵr dewr y coridorau,
- yno'n rhith
Brynrefs yr hen ddyddiau.
Tap-tap clywn eto pe-tac,
twtw dysg hwnt i'r deogiau.

Richard Llwyd Jones



DIRPRWY NEWYDD

Braf iawn oedd eael croesawu Mrs Ellen A. Williams i'r Ysgol ar gychwyn y tymor hwn fel ein Dirprwy Bennaeth newydd. Mae hi yn byw gyda'i theulu ger Glasinfryn. Bu Mrs. Williams yn gweithio yn Ysgol Gyfun Llangefni am 21 o flynyddoedd cyn dod atom. Roedd hi yno yn wreiddiol fel Pennaeth leithoedd Tramor ac yna, am yr 17 mlynedd diwethaf, fel Dirprwy Bennaeth yr ysgol honno. Yn ogystal â'i phrofiad helaeth yn Ysgol Gyfun Llangefni, mae Mrs. Williams hefyd yn brofiadol iawn fel arolygydd ysgolion uwchradd ac mae hi wedi treulio cyfnod llwyddiannus ar secondiad gyda chwmni Cynnal - y gwasanaeth ymgynghorol rhanbarthol i addysg. Rydym yn hyderus y bydd hi yn gaffaeliad mawr i Ysgol Brynrefail. Croeso cynnes iawn iddi i'r ysgol a'i chymuned a phob dymuniad da iddi wrth ei gwaith yma.
Mr Eifion Jones, Pennaeth



GRUFFYDD JOHN

Y mae pawb ym Mrynrefail yn llongyfarch Gruffydd John am gael ei ddewis i fod yn aelod o garfan tîm dan 18 Cymdeithas Pêl Droed Ysgolion Cymru. Dyma'r ail gefnwr ifanc i gael ei ddewis o Frynrefail wedi galwad Iwan Price i'r garfan y llynedd.

Bydd Gruff yn y garfan i chwarae yn erbyn Lloegr ac Awstralia, a gyda lwc, fe ddarlledir y gemau ar Sky Sports.

Mae Gruff yn bêl-droediwr amryddawn sy'n gallu chwarae mewn nifer o safleoedd gwahanol er iddo chwarae'n gyson fel cefnwr dde i dîm cyntaf Llanrug Unedig.

Y mae Gruff eisoes wedi cynrychioli tîm ysgolion Gogledd Cymru dan 18 ac mae yn gaptyn arnynt eleni.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



GWEITHDAI CROCHIAN A FFWRNAIS

Ym mis Medi fe dderbyniodd Ms Siân Owen, Pennaeth yr Adran Gelf, wahoddiad gan Galeri, Gaernarfon i ymuno â phrosiect gyda'r artist lleol, Megan Broadmeadow. Cynhaliwyd y gweithdai gwreiddiol dros dridiau ym mis Medi i griw o ddisgyblion blwyddyn 11 sy'n eistedd eu harholiadau TGAU eleni. Nod yr holl brosiect oedd creu ffilm gref a dychanol gan ddefnyddio'r Arwisgiad yn 1969 fel ysbardun creadigrwydd. Bydd y ffilm orffenedig yn cael ei ddangos fel rhan o wyl fawreddog fydd yn cymryd lle yn y castell yn 2012.

Yn ystod eu hamser yn gweithio gyda Megan Broadmeadow rhoddwyd cyfleoedd eang i feithrin eu sgiliau creadigol trwy ddefnyddio galluoedd dychmygus a sythweledol trwy greu delweddau ac arteffactau gwreiddiol a gwerthfawr.

Y mae Megan Broadmeadow yn artist aml-ddisgyblaeth, wedi ei lleoli ym Mae Colwyn, ac yn gweithio mewn cerfluniaeth, perfformiad a fidio.



SBOTOLAU AR ZOE WOOD

Y mae Zoe Wood, sy'n hanu o Dinorwig ac yn aelod o flwyddyn 7 yn gwneud enw iddi hi hun fel dringwr dawnus. Yr oedd ein gohebydd yn crynu a dim ond yn edrych ar ei lluniau!!!

Pa oed oedditi ti yn dechrau dringo?

Dechreuais ddringo pan oeddwn yn 3 mlwydd oed ond mae hynny am fod fy Mam yn dysgu pobl sut i ddringo felly rown i'n lwcus i gael dechrau mor ifanc.

Erbyn hyn yr wyt ti di cael llwyddiant mawr wrth ddringo.

Wel do. Eleni cefais fy newis i ymuno gydag Academi Dringo Gogledd Cymru ac yn cystadlu yn erbyn eraill o wahanol ardaloedd ym Mhrydain.

Ym mhle bu'r ornest dringo fwyaf y buost ynddo?

Wel yn ystod hanner tymor yr Hydref 2011, cefais fy newis i gystadlu mewn gornest dringo yn y Dolomites, yn yr Eidal, a fi oedd yn gyntaf yn yr Adran Iau.

Mae'n debyg dy fod wedi dringo llawer o fynyddoedd erbyn hyn ac yn eu plith...?

Wel yr Wyddfa wrth gwrs, a dringo nid cerdded neu fynd ar y trên, Pen y Fan yn ne Cymru a llawer o fynyddoedd eraill rhy niferus eu rhestru.

A be wyt ti'n neud o ran gwyliau?

Wel dwywaith y flwyddyn y rydym yn mynd i Fontainebleau yn Ffrainc ac yn treulio'r gwyliau yn dringo clogwyni'r llethrau isel!!



CYNGERDD Y NADOLIG

Cynhaliwyd 'Cyngerdd y Nadolig' yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, ar nos Lun 12fed Rhagfyr 2011, a'r eglwys dan ei sang, er y tywydd anffafriol. Fe gafwyd naws hyfryd y Nadolig gydag eitemau unigol, deuawdau, corawl a gan y seindorf. Fe gafodd y gynulleidfa, cymysgedd o rieni, ffrindiau a staff eu gwefreiddio gan y dalent oedd yn disgleirio a'r wefr ar wynebâu'r disgyblion o gymryd eu rhan. Cafwyd casgliad gwirfoddol ar y noson, a aeth eleni tuag at gronfa'r chweched dosbarth, i'w ddefnyddio ganddynt tuag at achosion da. Yn eu tro fe roddwyd £50 o'r arian tuag at gronfa Eglwys Sant Padarn.

DYFRGI YNG NGHAE PÊL-DROED LLANBERIS.

Fore Llun, yr ail o Ionawr, darganfuwyd corff dyfrgi ar ochr Cae Pêl-droed Llanberis, ychydig lathenni o flaen Tai Ffordd Padarn. Roedd y corff yn mesur tua dwy droedfedd a hanner o'i drwyn i flaen ei gynffon, heb niwed o gwbwl i'w weld arno.

Cymerwyd y corff gan aelod o Gyngor Gwynedd, gyda'r bwriad o gynnal post mortem arno, er mwyn darganfod beth laddodd y creadur ac edrych ar safon yr anifail pan yn fyw. Deallaf na fu ymchwiliad ar y corff ond tybir mai modur wedi mynd drosto, arweiniodd at ei farwolaeth.

Wedi i mi sôn am y darganfyddiad wrth rai o drigolion y pentref, deallais nad oedd y dyfrgi mor ddieithr ac y dychmygais, gyda nifer o'r trigolion wedi gweld dyfrgwn yn ystod y misoedd diwethaf. Deallais hefyd fod dau gorff anifail estron, minc, wedi eu darganfod yn y cyffiniau yn ddiweddar!



DIOLCH. Dymuna Menai a Barry ddiolch o waelod calon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gefnogaeth a'r cydymdeimlad diffuant a dderbyniwyd wedi'r brofedigaeth lem o golli merch annwyl a phoblogaidd iawn, Sasha Danielle Jarvis, mor frawychus o sydyn.

Diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Ysgol Gynradd Llanrug. Diolch yn arbennig i'r Parchedig Carol Roberts, am gynnal gwasanaeth urddasol i ddathlu bywyd Sasha, ac i Mr Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis am eu trefniadau trylwyr a gofalus iawn.

PRIODAS AUR. Dymuna Margaret a Hugh Griffiths 9, Llainwen Isaf, ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a'u holl ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas aur yn ddiweddar.

CYMD EITHAS UNDEBOL. Nos Fawrth, Ionawr y 10fed, cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mr Meical Roberts o Lanllyfni.

Testun ei sgwrs oedd 'Llun Mewn Ffrâm' a 'Cymdeithas Tai Gwynedd'. Bu yn sôn am y gwahanol swyddi y bu ynglŷn â hwy, ei waith fel Cynghorydd yn ei ardal a chael ei berswadio i gymeryd swydd rhan amser fel Trefnydd Cymdeithas Tai Gwynedd. Soniodd hefyd am sefydlu Oriel 'Llun Mewn Ffrâm' ym Mhenygroes a'i waith yn fframio a gwerthu lluniau artistiaid a ffotograffwyr lleol, ledled Cymru. Cawsom olwg ar nifer o'r lluniau a'r dull o'u fframio. Diolch yn fawr iddo. Llywyddwyd y noson gan Mr John H. Hughes.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar nos Fawrth, Chwefror y 14eg, am 7yh yn Festri Capel Coch pryd y cawn Gwis o dan ofal Y Parchedig John Pritchard, (un hawdd gobeithio). Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

CAPEL COCH. Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig y plant yn Capel Coch nos Sul, Rhagfyr 18, ac roedd yn braf iawn gweld bron i 40 o blant yn cyflwyno Drama'r Geni er mwyn dathlu dyfodiad y Gwaredwr i'n byd.

Roedd festri'r capel yn llawn, gyda theuluoedd y plant ac aelodau a chyfeillion Capel Coch a Nant Padarn yn uno i ddathlu'r Wyl. Diolch yn fawr iawn i athrawon yr Ysgol Sul am eu gwaith caled yn paratoi'r gwasanaeth ac yn hyfforddi'r plant ar gyfer yr oedfa. Cafwyd cyfle i sgwrsio dros banded a mins pei ar ôl yr oedfa.

Cynhaliwyd te parti Nadolig Ysgolion Sul Capel Coch a Deiniolen yn festri'r Capel nos Fawrth, Rhagfyr 20, ac roedd mor braf gweld pawb efo'i gilydd yn mwynhau hwyl y noson. Roedd yno wledd arbennig iawn, a chafodd y plant ddigon o hwyl wrth chwarae gemau cyn ac ar ôl y bwyd. Ac wrth gwrs, fe ddaeth Siôn Corn eleni eto, fel pob blwyddyn arall, efo llond sach

neu ddau o anrhegion. Cafodd pob un o'r plant lyfr Beiblaidd addas i'w oed, ac mae'n werth gweld yr amrywiaeth o lyfrau newydd y mae'r plant yn eu derbyn bob blwyddyn.

Cynhaliwyd Oedfa Gymun fore'r Nadolig yn Capel Coch dan arweiniad y Gweinidog, ac unwaith eto cawsom gwmni aelodau'r Ofalaeth a rhai o bobl ifanc yr eglwys oedd gartref dros y Nadolig.

MOLI. Cynhelir oedfa Moli yn Capel Coch am 5.00 o'r gloch nos Sul, Chwefror 12, ac estynnwn wahoddiad i bawb ohonoch i ymuno â ni dan arweiniad aelodau iau'r eglwys.

OEDFA DEULU. Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch ddydd Sul, Chwefror 26. Croeso cynnes i bawb.

ER COF AM SASHA

Ynghanol ein storm, ein hiraeth a'n poen

Gofala amdani ein haddfwyn Oen,

Mewn llu atgofion a'n calonnau ni

Bydd cariad pur Sasha yn fyw inni.

BJ

(Dydd ei hangladd, Ionawr 9fed, 2012)

• Priodasau • Dathliadau

• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau

• Pwyllgorau • Bwydlen Bar



THE LEGACY

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS

with droed yn Wyladdfa

Ffôn: 08444 119 003

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Rhagfyr oedd: £30: Mrs Alma Jones, Tan y Fron; £20: Mrs Nan Roberts, Pantafon; £10: Mrs N. Huws Roberts, Madryn, 10 Erw Wen, Caeathro.

DIOLCH. Mae Gŵyl y Nadolig drosodd unwaith eto. Diolch i'r rhai fu'n paratoi y gwasanaethau arbennig yn Eglwys y Waun ac yn Eglwys Betws Garmon. Diolch hefyd am yr addurniadau lliwgar a osodwyd ar y tai o amgylch y pentref, roeddynt yn siriol i'r ardal. Diolch hefyd i staff a disgyblion yr Ysgol am gyngerdd gwerth chweil. Daeth pawb o'r Neuadd Bentref yn eu canmol ac wedi mwynhau.

DYWEDDIO. Llongyfarchiadau i Elin Huws, Argoed, ar ei dyweddïad â Meurig o Gaernarfon.

Ein llongyfarchiadau hefyd i Sioned Jones, Hafod y Rhyg ar ei dyweddïad â Jamie o Brestatyn. Dymuniadau gorau i'r ddau bâr ifanc.

PRIODAS YMHELL O ADREF. Tra'n trefnu gwyliau o amgylch rhai o wledydd y byd, yn dawel bach fe drefnodd Helen Williams, Garreg Fawr a Meilir Fretwell o Benygroes, leoliad a dyddiad ar gyfer eu priodas. Ar Ragfyr 16, yn Seland Newydd, fe briododd y ddau. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi eich dau.

GENEDIGAETHAU. Llongyfarchiadau i Tina a theulu 11 Ael y Bryn, ar enedigaeth mab bach, Adam Lloyd. Brawd i Jason, Kieran a Kyle ac ŵyr bach i Angela Parry, Bryn Golau.

Daeth Olwen a Norman Williams, Llidiart Wen, yn nain a thaid i Mared, merch fach a anwyd i Elin ac Arwyn, chwaer i Guto ac Osian a chyfnither i Nel ac Efan, Preswylfa. Llongyfarchiadau a pob dymuniad da ichi.

Llongyfarchiadau i Yvonne a Mark Sykes, Festri Capel Bethel ar enedigaeth mab bychan, Ifan, brawd i Megan, Sioned a Rhys.

Dymunwn bob hapusrwydd i'r teuluoedd ac i'r rhai bach.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Gwen Otten, Stad Pant y Waun, adref o'r ysbyty a'n dymuniadau gorau iddi am wellhad buan.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Gwendoline Rowlands, 5 Bryn Golau, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Dic, ac hefyd â'r plant, Graham, Yvonne, Martin a Gerald a'u teuluoedd yn eu colled o golli tad a thaid annwyl.

Dymuna Gwendoline a'r teulu ddatgan eu diolch am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad y maent wedi ei dderbyn yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys hefyd â Mrs Olwen Owen, Stad Tref Eilian, yn ei phrofedigaeth a'i cholled fawr o golli ei merch, Elizabeth, chwaer i Gwenno a Huw, priod Stephen a mam Rhys a Siôn. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch yn eich hiraeth.

Dymuna Olwen Owen, Tref Eilian, Stephen, Rhys, Siôn, Gwenno a Huw ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a'r rhoddion hael tuag at Ward Alaw Ysbyty Gwynedd er cof am Elizabeth.

MERCHED YWAWR

Cynhaliwyd cinio Nadolig y gangen yn Nhafarn y Weun nos lau, 1 Rhagfyr. Diolch i staff y dafarn am eu croeso ac am y bwyd ardderchog, a diolch yn arbennig i Mrs Jana Jones a ddaeth i'n diddanu. Roedd pawb wrth eu bodd yn ei chlywed yn sôn am arferion y Nadolig yn ei chartref draw yn Ohio yn yr Unol Daleithiau. A hefyd yn gwrandao arni yn canu mor swynol.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen nos lau, 26 Ionawr yn Y Ganolfan, pryd y bydd Mrs Anna Williams, sy'n byw yn y Waunfawr, yn siarad am ei gwaith gyda'r Bartneriaeth Gerddi Bywyd gwyllt. Yna, ar 1 Mawrth, byddwn yn dathlu Gŵyl Dewi yng nghaffi'r Antur. Croeso mawr i aelodau hen a newydd.

Eirlysiau

Eu rhyfyg sy'n herio rhyfel yr heth

drwy y rhew a'r oerfel, yn nhrwch eu gwyleiddiwch gwêl gwerin obaith o'r gorwel.

Dros orwel, daw'r awel a'r hin dyner

ledaena'r hen ddewin a'i rym, wna'r angylion rhin yn nefoedd drwy'r gynefin.

Cynefin oedd wedi blino; - arlwy pob eirlys sy'n deffro iredd wna brwdfrydedd bro yn awydd i adfywio.

Adfywio wrth ddihuno ddug obaith; aberth o'r tir sarrug yn eu ple er pennau plyg, eu rhif ddiddyma'r rhyfyg.

Norman Closs

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwy

**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis**

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU



SWIGOD A SEBON
LAUNDRY & IRONING SERVICES

SYCHLANHAU
Altro • Ailwnio
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio

54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718



**GERAINT OWEN
CARPEDI**

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Un funud fach ...

CONCORDIA

Gallasai'r ddamwain ger Ynys Giglio oddi ar arfordir Yr Eidal fod llawer iawn gwaeth o gofio bod mwy na 4,200 o bobl ar y Costa Concordia pan drodd y llong anferth hon drosodd. Ar hyn o bryd, bedwar diwrnod wedi'r ddamwain, cadarnhawyd bod 11 o bobl wedi marw a bod cymaint â 24 ar goll o hyd. Mae miloedd o bobl yn diolch eu bod wedi dianc yn ddianaf o'r llong. Ac mae pawb a welodd luniau'r llong ar ei hochr yn y dŵr yn sylweddoli y gallasai hon fod yn un o'r damweiniau gwaethaf a fu erioed ar y môr.

Ond er y rhyddhad a deimlir gan bawb bron, mae hon yn drasiedi wirioneddol i deuluoedd y rhai a fu farw. Oherwydd faint bynnag o ddamweiniau sy'n digwydd ar y môr bob dydd, i'r teuluoedd hynny, y ddamwain hon yw'r waethaf o'r cyfan. Ar fwynhau ychydig ddyddiau o wyliau braf yr oedd bryd rhai o'r bobl a fu farw, a dim ond gwneud eu gwaith oedd y gweddill. Ond daeth y cyfan i ben iddynt pan drawodd y llong y creigiau a hwythau'n methu dianc gyda gweddill y criw a'r teithwyr. Pobl ddieithr i ni yw teuluoedd a chyfeillion y rhai a gollwyd, ond gallwn ddychmygu eu poen a'u tristwch heddiw.

Ystyr y gair Eidaleg (neu'n wreiddiol y gair Lladin) 'concordia' yw 'harmoni' neu 'gyfeillgarwch' neu 'undeb'. Fe'i rhoddwyd yn enw i'r llong newydd yn 2005 fel arwydd o'r dyhead i weld harmoni ac undeb yn parhau rhwng cenhedloedd Ewrop a'i gilydd. (Am resymau tebyg, wrth gwrs, y cafodd 'Concorde' ei henw, i nodi'r harmoni a'r cydweithio a fu rhwng Ffrainc a gwledydd Prydain wrth greu'r awyren enwog honno.)

Mae'n bosibl y bydd prinder 'concordia' yn Yr Eidal y dyddiau nesaf hyn. Mae'r cwmni llongau yn amlwg yn brysio i feio'r capten am yr hyn a ddigwyddodd. A phwy wŷr ar hyn o bryd i ba gyfeiriad arall y bydd y bys cyhuddgar yn pwyntio yn y man. Ac eto, fel ym mhobman arall yn dilyn damweiniau mawr, bydd yno hefyd ddigon o 'concordia', am fod galar a cholled rywsut yn gallu dod â phobl at ei gilydd a'u huno mewn gofal am gyfeillion yng ngwewyr profedigaethau llym.

Gweddïwn ninnau am ras Duw i allu cydymdeimlo â'r galarus, a gwneud hynny mor ddiffuant a chywir â phosibl. Trwy'r gras hwnnw, boed i ni rywsut gael ein gwneud yn un â'r dioddefus yn ein cariad a'n gofal amdanynt

JOHN PRITCHARD

Samariaid

Profodd sylfaenydd y Samariaid, Y Parch. Dr Chad Varah, bod rhoi cyfle i bobl siarad am eu gwewyr meddwl, tristwch neu anobaith yn gyfrwng iddynt ysgafnhau'r baich hwnnw. Dyma'r hyn a sbardunodd y gwaith yn 1953 a adnabyddwn ni heddiw fel gwasanaeth y Samariaid. O fewn deng mlynedd o sefydlu'r gwasanaeth roedd nifer y rhai oedd yn gwneud amdanynt eu hunain wedi lleihau o draean.

Mae'n wasanaeth sy'n rhoi cefnogaeth emosïynol gyfrinachol, ac mae'r gwasanaeth ar gael ddydd a nos bod dydd o'r wythnos boed yn sgwrs ffôn, e-bost, llythyr, neges destun neu gyfarfod wyneb yn wyneb.

Mae llawer wedi rhannu eu profiadau dros y blynyddoedd

a dyma eiriau o brofiad rhai sydd wedi disgrifio eu gwerthfawrogiad o wasanaeth y Samariaid.

Stori Gwen

Cefais fy mwlio drwy fy nghyfnod yn yr ysgol uwchradd. Bwlio corfforol a meddylol.

Er i mi ddweud wrth yr athrawon a'm rhieni, ac er y gofynnwyd i'r merched oedd yn fy mwlio i roi'r gorau iddi, dal ati wnaeth y bwlio.

Roeddwn yn ffodus o gael cefnogaeth fy rhieni ond yr oeddwn yn dal i feio a dibrisio fy hun. Un noson penderfynais ffonio'r Samariaid a finnau ond yn 16 oed a chael rhannu'r cwbl. Nid oeddwn yn medru stopio crio oherwydd cymaint oedd y rhyddhad o gael sôn am yr holl boen oedd wedi'i gloi o'm mewn.

Golygodd hyn y gallwn fod â'r cryfder i fynd ymlaen gyda fy addysg mewn coleg drama a chael gyrfa fel actores. Rwyf yn awr yn 26 mlwydd oed.

Stori Sali

Rwy'n dioddef o'r anhwylder deubegynol ers tua saith mlynedd a does fawr o gefnogaeth ar gael i'r rhai sydd gyda'r cyflwr hwn. Er bod ffrindiau a theulu yn ofalus ohonof, nid ydynt yn medru deall yr afiechyd na rhoi gwir gefnogaeth i mi. Mae'r Samariaid wedi bod o gymorth amhrisiadwy i mi.

Mae'r Samariaid wedi gwrandao arnaf yn ddiamod ac yn ddiragfarn. Maent yn rhoi'r cyfle i mi siarad a thrafod yr hyn sy'n digwydd yn fy mywyd o ddydd i ddydd. Galluogodd hyn i mi fedru trafod a delio gydag emosïynau anodd iawn,

ac mae'r Samariaid yno pan fydd eu hangen.

Stori Bryn

Rhoddodd y Samariaid gymaint o help i mi, oherwydd oni bai am eu help mae'n debygol na fyddwn i yma heddiw. Roeddwn mor isel. Diolch yn fawr i chi am fod yno pan oedd popeth arall wedi methu. Mi fyddwn yn ei gymeradwyo i unrhyw un.

Y Samariaid

Y cwmni yn yr unigrwydd

Y cyfaill tu ôl i'r lein

Y deall a'r cydymdeimlad

Y llais pan fo'r byd ar ben.

Y gwrandao, nid y pregethu

Y glust, ddim y tafod rhydd

Y disgwyl yn amyneddgar

Y cysur ar derfyn dydd.

Eifion Lloyd Jones

Mae'n rhaid i mi siarad
heto rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

**POSH
DAWS**



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Caoglu a Danfon


Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost: julia@poshpaws@btinternet.com

L.G. OWEN
PENISARWAUN

**GWAITH ADEILADU
CYFFREDINOL**

Gwaith Cerrig- walio a gwynebu
Gwaith Tir-dreinio
Decio a Ffensio - Patios
Llwybrau- Concretio - Dreifs
Bloc Paving a Tharmacio
Gwaith o safon, gyda prisiau rhesymol (Yn gwhwl yswiriedig)

CYSYLLTWCH ▶ **07896739544**
NEU ▶ **07787532369**



Ty Clwb, Clwt y Bont.

Cafwyd cryn dipyn o ymateb i'r cais am wybodaeth ynglyn â sinema yn Nhy Clwb, Clwt y Bont. Diolch i Mrs Jennie Williams, Rhydfadog, Deiniolen, Mrs Alice Griffith, Dinorwig a Mr Owen Jones, Llangefni am gysylltu ac anfon gwybodaeth am yr adeilad sydd bellach wedi ei ddymchwel. Safai'r adeilad gyferbyn â llofft y felin; hynny yw, gyferbyn â'r adeilad sydd heddiw yn Neuadd Seindorf Deiniolen, ac yn is i lawr na hen ysgol Frutanaidd y pentref. Adeilad o gerrigydoedd, a tho o lechi, a gallai ddal tua 60 neu fwy o bobl ar eu heistedd. Does dim sicrwydd pryd yr adeiladwyd ef, na gan bwy, ond mae'r enw'n awgrymu mai rhyw Gymdeithas gyfeillgar neu'i gilydd fu'n gyfrifol amdano. Roedd Ty Clwb mewn sawl plwy, ac yno y byddai'r gweithwyr - chwarelwyr yn ein hardal ni - yn talu ceiniog neu ddwy yn fisol fel math o yswiriant rhag salwch

Cyfrif cwn.

Sawl ci sydd yn ein hardal heddiw? Gormod yn ôl rhai, yn enwedig pan fo'u perchnogion yn caniatáu iddynt faeddu ar hyd palmentydd ein pentrefi. Does dim posibl cadw cyfrif faint o gwn sydd yn yr ardal heddiw, ond ers talwm, roedd angen trwydded i fod yn berchen ei, ac felly, roedd cyfrif yn cael ei wneud o sawl un oedd ym mhob ardal. Wrth gwrs, roedd rhai perchnogion yn cael eu heithrio o orfod prynu trwydded, sef y rhai oedd angen cwn i gynorthwyo gyda'u gwaith. Yn 1896 cafwyd cyfrif o sawl ci oedd ym mhlwyf dalgylch yr "Eco", sef Llanberis, Llanddeiniolen, Llanrug a Betws Garmon. Doedd Waunfawr ddim yn cael ei gyfrif ar wahan, ond fel rhan o blwyf Llanbeblig. Mae'r cwn mwyaf cyffredin

neu anaf yn y gwaith. Gwyddom fod gwahanol Gymdeithasau Cyfeillgar yn bodoli yn yr ardal mor gynnar â diwedd y 1830'au. Roedd Ty Clwb yn bodoli felly yn gynnar iawn yn hanes datblygiad Ebenezer, ac erbyn 1860 roedd Wesleaid yr ardal yn rhentu'r Ty Clwb am £3 y flwyddyn. Buont yn addoli yno hyd 1863, pan symudodd yr achos i gapel newydd yn Cae Tai (Tabernacl Street). Yn yr un modd, bu Bedyddwyr cynnar yr ardal yn cyfarfod yno cyn iddynt brynu darn o dir yng Nghlwt y Bont a symud i gapel newydd yno yn 1877. Yn ôl Mrs Jennie Williams, roedd cwpwl o'r enw David a Catherine Rowlands yn byw yno, gan mai hwy oedd gofalu'r Ty Clwb. Roedd iddynt o leiaf ddau fab, sef Rolant Morris a Thomas Morris. Bu'r tad farw yn 1878, flwyddyn wedi i'r Bedyddwyr symud oddi yno. Roeddent yn hannu o deulu y Parch William Rowlands. Mae

yn cael eu henwi, a rhoir cyfrif hefyd o sawl trwydded oedd yn cael ei rhoi. Yn naturiol, mewn ardal amaethyddol ble roedd ffermio defaid yn holl bwysig, gallai rhywun ddyfalu mai ci defaid oedd yr un mwyaf cyffredin o ddigon. Yn Llanberis er enghraifft, dim ond 186 o gwn oedd yn bodoli, ac yr oedd 155 ohonynt yn gwn defaid nad oedd angen trwydded i'w cadw. Nid yw cwn unrhyw gi arall yn ymddangos yng nghofnodion Llanberis. Felly hefyd Betws Garmon, gyda 30 o gwn, a 26 ohonynt yn gwn defaid heb drwydded. Yn Llanddeiniolen roedd y cyfanswm mwyaf o gwn, sef 388, gyda 254 ohonynt yn gwn defaid nad oedd angen eu trwyddedu a 50 terrier nad oedd angen trwydded.

CHWILOTA



Mrs Williams, hithau o'r un cyff. Ond yn ogystal a bod yn addoldy dros dro i ddau enwad gwahanol, roedd y Ty Clwb hefyd yn gartref i'r Odyddion (Oddfellows), ac yn y neuadd y cynhaliai'r gymdeithas ei chyfrinfa. Roedd taid Owen Jones, sef Owen Richard Jones, Erw Fair, Deiniolen, yn aelod o'r Odyddion ac yn dal y swydd o 'parade marshal'. Arferai'r gymdeithas orymdeithio drwy'r pentref pob dydd Sadwrn 'Cyfri mawr', a byddai chymdeithas gyfeillgar y Rechabiaid yn gwneud yr un peth. Weithiau, byddai'n mynd yn ffrwgwd rhwng y ddwy orymdaith, a gwaith y 'parade marshal' oedd cadw trefn ar bethau! Mae'r llun yn dangos Owen Richard Jones yn ei lifrai yn sefyll tu allan i ddrws y gyfrinfa yn Nhy Clwb. Er i'r tri a gysylltodd gofio am fodolaeth y sinema yn Nhy Clwb, doedd yr un ohonynt yn cofio Mr Toummavoh. Mae'n debyg mai gwr o'r India ydoedd, a'i fod yn cadw stondin mân nwyddau yn y farchnad yng Nghaernarfon. Roedd hefyd yn trafellio o amgylch y pentrefi cyfagos gyda 'portmanteau' yn gwerthu manion at ddefnydd gwraig y ty megis edafedd a botymau. Y fo hefyd oedd yn gyfrifol am y sinema, sef 'magic lantern'. Roedd mam Owen Jones yn arfer dweud mai sinema Mr Toummavoh oedd y lle oeraf y bu ynddo erioed. Yn dilyn un ymweliad, cafodd annwyd trwm a bu yn ei gwely am ddyddiau! Yn ôl Mr Owen Jones, mae'n debyg mai'r olaf i wneud

defnydd o'r Ty Clwb oedd saer coed o'r enw William Williams, Cae Rhedyn. Ymfudodd i Batagonia, gyda'r bwriad o sefydlu yno a chael ei wraig a'i ddau blentyn, Muriel ac Emrys, i ddilyn. Ond dychwelyd heb wireddu ei obeithion a wnaeth, a sefydlu busnes yn y Ty Clwb, gan ail-afael yn ei grefft o saer coed. Ef mae'n debyg oedd y tenant olaf. Mae Mrs Jennie Williams hefyd yn cofio ymweld â gweithdy'r saer pan oedd yn eneth fach, gan gadarnhau mai William Williams, Clwt y Bont oedd y tenant olaf. Ymhen blynnyddoedd, a'r adeilad wedi ei adael yn wag a'i gyflwr yn dirywio, fe'i dymchwelwyd a chodi byngalo yno. Llauer o ddiolch i'r tri ohonoch am gysylltu ac am rannu eich gwybodaeth am adeilad a fu'n rhan o hanes Clwt y Bont am dros ganrif.



Temperance House Nant Peris.

Yn 1911 roedd R. Evan Jones, Prifathro Ysgol Nant Peris yn poeni'n arw ynglyn â diogelwch y plant oherwydd y cynnydd mewn trafndiaeth ar y ffordd fawr drwy'r pentref. Ysgrifennodd at y Cyngor Sir yn gofyn ar iddynt osod arwyddion rheoli cyflymder ar y ffordd. Roedd ugain milltir yr awr bryd hynny yn cael ei gyfrif yn echrydus o gyflym! Rhan o'i ddadl oedd fod trafndiaeth cyson drwy'r pentref haf a gaeaf, yn enwedig gan ymwelwyr nad oeddent yn ymwybodol o fodolaeth yr ysgol gan ei bod wedi ei chuddio ar un ochr gan y capel, ac ar yr ochr arall gan y "temperance house". Mae'r capel yn dal yno, yr ysgol wedi cau, ond beth am y temperance house?

CHWILOTA Parhad



Hen Ddywediad.

Y dydd o'r blaen deuthum ar draws dywediad a oedd yn hollol ddieithr i mi. Mae wedi ei naddu mewn carreg ym môn clawdd ar Drwyn Cilan. Dwn i ddim ai perthyn i'r ardal honno y mae, yntau a ydyw'n gyffredin i weddill yr hen Sir Gaernarfon. Tri pheth y dylem eu caru yw arogl meillion, blas llaeth a chân yr adar yn y coed. Rhowch wybod os clywsoch y dywediad, neu ddywediad tebyg iddo yn yr ardal hon.

Melin Crawia - Y Vaynol Mill.

Gan Geraint Huws Roberts, Bangor (Llanrug gynt) y daeth mwy o atgofion am y felin. Mae'n cyfaddef ei fod yn ddigon hen i'w chofio'n gweithio yn ystod y rhyfel, a chof arbennig am yr arogl drwg ddeuai ohoni ar brydiau, yn enwedig ar ddyddiau poeth yn yr haf! Brawd i'w hen daid, sef Thomas

Morris a ddaliai'r lês yn chwarter cyntaf y ganrif ddiwethaf. Ef oedd perchen Arthur Stores yn y Waen, Penisarwaun. Bu ef farw yn 1916, ac fel Thomas Morris, Vaynol Mill y cyfeirir ato. Ei fab, Huw, oedd yn fud a byddar, reolai'r felin, ac yr oedd ganddo lawysgrif gain, yn cofnodi archebion gwahanol gwsmeriaid am flawd.

Merch Thomas Morris, Martha a'i gwr fu'n cadw Arthur Stores wedi marw ei thad, a buont yno hyd ddechrau'r 1920'au. Gwerthwyd y siop i deulu'r diweddar Archesgob Gwilym O. Williams.

Tim Peldroed Brynrefail.

Carolyn Jones, Pen Dinas Mawr, Brynrefail gysylltodd ynglyn â'r llun, a hynny ar ran ei hewythr Hefin Closs Parry. Ymddangosodd y llun yn rhifyn Mehefin 1988 ac enwir yr holl chwaraewyr Felly dyma ail-adrodd yr enwau rhag ofn nad oes copi o rifyn Mehefin 1988 yn dal yn eich meddiant!

Rhes gefn (chwith i'r dde): Rol Williams, Gwilym W. Williams,

Geraint Roberts, Y Parch G. meirion Williams, Ifan W. Williams, Gwyndaf Williams a Billy Jones.

Rhes flaen (chwith i'r dde): Owen Glyn Foulkes, Cyril Jones, Harold Williams, John Morris, Bob Williams a Joe.

Yn ôl y wybodaeth gan Hefin Closs Parry, un o'r degau o efaciwis a gafodd gartref dros dro yn yr ardal oedd Joe.

Waliau Cerrig.

Fyddai ddim yn ddarlennwr brwd o'r golofn "Farm and Country" yn y Daily Post, ond ddiweddd Rhagfyr, digwyddais daro ar erthygl fer yn son am waliau cerrig. Son roedd y gohebydd am ail-godi wal gerrig ym Mhen Gorffwysfa, a honno'n wal go arbennig gan mai wal sengl oedd hi yn hytrach na wal ddwbl; hynny yw, un rhes o gerrig wedi eu gosod ar ei gilydd yn hytrach na chloi dwy res ac yna gosod cap arni.


Mae mathau sengl fel hyn yn gyffredin yn yr Alban, ond nid yng Nghymru. Does neb yn gwybod pam fod rhai waliau'n

sengl a'r lleill yn ddwbl.

Mae'r wal ym Mhen Gorffwysfa yn debygol o fod yn rhan o hen gorlan cadw da byw pan fyddai anifeiliaid yn cael eu cerdded drwy fwlch Llanberis i'r gefnwlad.

Roedd Sean Adcock, ysgrifennydd cangen gogledd Cymru o Gymdeithas Waliau Sych yn nodi iddo ddod ar draws enghreifftiau eraill o waliau sengl yn Llanddeiniolen a'r Waunfawr, ond nid yw'r erthygl yn nodi ble. Byddai'r gymdeithas yn falch o glywed gan unrhyw un - yn enwedig ffermwyr lleol - sydd â wal sengl ar eu tir. Cysylltwch â Sean Adcock ar sean@stonewaller.freeserve.co.uk

A dyna'r cyfan am y mis: erbyn y daw'r rhifyn nesaf o'r wasg bydd yn ddechrau Mawrth, a'r gwanwyn rownd y gornel, ac fe fydd y flwyddyn wedyn yn gwibio heibio. Felly, anfonwch unrhyw wybodaeth neu gais am eitem ynglyn â hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AG mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

YSGOL YRRU ELIDIR Driving School

Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymradwyo
gan yr ASG

07922121226
neu
(01286) 882269

GWERS GYNTAF
2 AWR AM BRIS 1



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Community Gist Gymunedol

Awydd £1,000 tuag at eich
prosiect chwaraeon
cymunedol?

Mae'r Gist Gymunedol yn
cynnig grant o hyd at £1,000
i gefnogi cynlluniau
chwaraeon a
gweithgareddau egniol
newydd neu ychwanegol yn
y gymuned.

Cysylltwch â:
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu
Chwaraeon
01758 704 054
Rhianeleridobson@gwynedd.co.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948
williamshy@parliament.uk

J.M. JONES a'i Feibion LLANRUG Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

YSGOL GYMUNED.

Croesawn Mr Llŷr Rees fel Pennaeth newydd yr Ysgol. Mae'n teimlo'n gartrefol iawn yn ein plith yn barod. Mae'n dymuno diolch i'r staff, plant a'r rhieni am y croeso mae wedi ei dderbyn gan bawb.

CWIS MWYAF CYMRU.

Cafodd disgyblion Bl 5 a 6 gyfle i gymryd rhan yn y cwis yma yng nghwmni plant o Ysgol Dolbadarn. Aethant i Galeri, Caernarfon, dydd Mercher, 11 Ionawr, ble roedd cwmni teledu 'Boomerang' yn ffilmio ar gyfer rhaglen 'Stwnsh'. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn ac edrychwn ymlaen i'w gweld ar y sgrin yn fuan.

CRONFA PENSIYNWYR.

Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Rhagfyr oedd Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion. Diolchir i bawb am gefnogi'r bêl bonws loteri yn ystod 2011. Byddwn yn parhau eto eleni gyda phob lwc i bawb.

LLONGYFARCHIADAU

Dylan Wyn Roberts, 18 Bryn Tirion a ddathlodd ei ben-blwydd yn 21ain ar 9 Ionawr. Pob bendith i ti yn y dyfodol, Dylan.

DYWEDDIAD.

Ein dymuniadau gorau i Aled Wyn Jones, 17 Bryn Tirion ar ei ddyweddiad â Catrin Maredd Roberts o Gaernarfon.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Sioned Lewis a'i chymar ar enedigaeth merch fach - Nel Magi, wyres gyntaf i Elen a Haydn, Penpwllcoch, a nith fach i Nia a William a Sian. Pob bendith i chi fel teulu.

GAIR O DDIOLCH.

Dymuna Betty, Shân, Bethan

a theulu'r diweddar Robert Henry Pritchard, 45 Pentre Newydd, Caernarfon, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt o golli gŵr, tad a thaid arbennig. Bu hyn o gysur mawr i'r teulu. Diolch o galon.

DIOLCH. Dymuna Rhian a Kelvin, Crud yr Awel, 3 Bryn Eglwys, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion ar enedigaeth eu merch fach, Mali Efa.

Dymuna Dafydd, Sycharth, 5 Bryn Eglwys, ddiolch yn ddiffuant i'r teulu oll, cymdogion a ffrindiau lu am eu caredigrwydd mawr ar achlysur ei ben-blwydd arbennig ar Noswyl y Nadolig.

EGLWYS SANTES HELEN.

Dymuna Eurgain Haf, Swyddog Cyhoeddusrwydd yr elusen, Achub y Plant, ddiolch i aelodau'r Eglwys a rhieni aelodau Ysgol Sul Bosra am y rhodd haelionus gan Wasanaeth y Cristingl.

PRIODAS AUR.

Llongyfarchiadau mawr i Myfanwy a Dic Parry, Tawelfa, ar achlysur eu Priodas Aur ar 3 Ionawr. Dymuna'r ddau ddiolch o galon i'r teulu oll ac i ffrindiau lu am eu dymuniadau da mewn cardiau, galwadau ffôn ac anrhegion. Diolch arbennig i'r teulu agos am ddathliad hapus a chyfle i hel atgofion melyn iawn.

YSGOL SUL BOSRA. Braf oedd ail gyfarfod ar ôl bwrlwm y Nadolig a hyfryd oedd estyn croeso i Elin Thomas atom. Bu Siôn Corn yn hynod o hael tuag at bob un a balch oeddem o ddeall fod pawb wedi cael

yr hyn yr oeddent wedi'i ofyn amdano. Edrychir ymlaen am dymor hapus, llawn bwrlwm unwaith yn rhagor. Dymuna Elusen Achub y Plant ddiolch am gyfraniad haelionus yn ystod y Gwasanaeth Cristingl.

PWYLLGOR NEUADD.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol nos Iau, 12 Ionawr. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr oedd Nia Walker, Cyttir, Brynrefail ac Elgan Williams, Pen Gaer. Diolchir i Phylis am ofalu am werthiant Webb Ivory eto eleni. Cynhelir Noson Dwynwen ar nos Fercher, Ionawr 25 gyda chystadlaethau a Disgo Dwynwen. Atgoffir pawb ei bod hi'n amser adnewyddu aelodaeth y Clwb 100. Croeso cynnes i aelodau newydd.

CYDYMDEIMLAD. Ein cydymdeimlad llwyrfa â holl deulu Gwyddfor yn eu profedigaeth o golli'r Parchedig Evan Lynch ar fore'r Nadolig, tad, tad yng nghyfraith a thaid balch. Fe'i rhoddwyd i orffwys gyda'i briod annwyl, Beryl, ym mynwent Santes Helen.

GWELLHAD. Anfonir ein cofion gorau at bawb sy'n sâl neu wedi bod yn sâl dros y Nadolig. Gobeithio y bydd 2012 yn flwyddyn garedig i bawb.

Gobeithio fod Myra Griffith, 6 Bryn Eglwys, yn gwella wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Ein cofion annwyl at Elinor Jones, Bron y Waen, sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd hefyd.

EISTEDDFOD BENTREF.

Cynhaliwyd Pwyllgor nos Iau, 12 Ionawr, yn yr Ystafell Gymuned. Cynhelir yr Eisteddfod ar Orffennaf 6ed. Dewiswyd y beirniaid gan obeithio y cawn ymateb cadarnhaol. Cynhelir y pwyllgor nesaf nos Iau, 15 Mawrth i ddewis testunau.

V mae cwpwrdd hardd wedi'i brynu ar y cyd â'r

ysgol i arddangos tariannau a chwpanau gwahanol weithgareddau. Edrychir ymlaen am Eisteddfod llawn bwrlwm eto eleni.

PROFEDIGAETH.

Ar Ionawr 18fed a hynny'n annisgwyl iawn, yn Ysbyty Gwynedd, bu farwun o fechgyn disgleiriaf y pentref hwn, sef William Elfyn Thomas, un a fagwyd ym Meillionydd gyda'i dad yn Brifathro ar Ysgol Tan y Coed. Cafodd yrfa tu hwnt o lwyddiannus, gan ennill gradd yng Ngholeg Rhydychen. Bu'n athro a darlithydd, ond pinael ei yrfa oedd bod yn Brifathro Ysgol oedd yn agos iawn at ei galon, sef Ysgol Brynrefail, Llanrug. Melys yw atgofion ei gydweithwyr a'r disgyblion lu ohono.

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â theulu Pen y Graig, Tudweiliog, sef Cadi ei wraig, y meibion, Emyr, Harri a Morgan, ei wyres Betti a'r wyrion, Robin a Carwyn, a'i chwaer, Margaret, Carrog, Waen. Bu'r angladd cyhoeddus yn Amlosgfa Bangor bnawn Mawrth, Ionawr 17.

APÊL ETO!

Ydi, mae baw cŵn ar hyd y palmant o Lys y Gwynt hyd ddiwedd palmant Bryn Eglwys yn dal i boeni a gwylltio'r trigolion. Bu i un tŷ gael baw ci drwy'r tŷ wedi i un o'r wyrion ifanc sathru baw a oedd union o flaen y giât, gan wneud llanast ar y carped lliw hufen ynghyd â gwadnau ei esgidiau. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o hyn a rhybuddir perchnogion cŵn fod dirwy drom os delir unrhyw gi yn troseddu. Mae bagiau pwrpasol ar gael yn rhad iawn.

Os ydych yn adnabod perchnogion cŵn nad ydynt yn prynu'r Eco, a fuasech garediced â chario'r genadwri hon - iddynt godi'r baw a mynd ag ef i'r bin. Diolch yn fawr.

YSWIRIANT FUW

Hoffech ghi hybu:



Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei swydduodi â'r teulu gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfrngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935



BOCS O FFRWYTHAU & LLYSIAU

£10. Wedi ei ddanfôn AM DDIM yn lleol

ffoniwch - WIL, PEN-LLYN 07990926484

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

CYNGOR GWYNEDD

Cyngor Gwynedd yn gwneud clipiau papur (a mwy) allan o hen fatresi

Mae Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno gwasanaeth newydd ar gyfer ailgylchu matresi.

Bellach, gall aelodau'r cyhoedd fynd â hen fatresi i'w canolfan ailgylchuleolllebyddantyn cael eu casglu a'u hailddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o bethau yn hytrach na'u pentyrru a'u gadael i bydru am flynyddoedd mewn safle tirlenwi. Bydd hen fatresi sy'n cael eu casglu drwy wasanaeth casglu gwastraff swmpus y Cyngor hefyd yn cael eu hailgylchu.

Amcan y gwasanaeth newydd hwn yw gwella ansawdd yr amgylchedd lleol drwy anfon llai o wastraff i gael ei gladdu mewn safleoedd tirlenwi, a drwy wneud defnydd newydd o hen fatresi.

Meddai'r Cyngorydd Gareth Roberts, Arweinydd Portffolio'r Amgylchedd ar Gyngor Gwynedd:

'Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo i leihau'r tunelli o wastraff sy'n cael ei anfon i dirlenwi, ac felly mae llwyddiant cynlluniau ailddefnyddio ac ailgylchu yn allweddol. Mae hwn yn gam pendant arall tuag at gyrraedd ein targedau.

'Erbyn hyn mae 46% o bopeth a daflwn i ffwrdd yn cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, ac rwyf yn hapus iawn bod y cyfraddau hyn yn uwch nag erioed yng Ngwynedd, a rhaid diolch i drigolion lleol am eu cefnogaeth. Fodd bynnag, rydym yn wynebu targedau uwch fyth sydd wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru, erbyn 2013 rhaid i ni fod yn ailgylchu 52% o'n gwastraff, a 70% erbyn 2025.'

Mae niferoedd y matresi sy'n cael eu taflu yng Ngwynedd bob blwyddyn yn uchel ac maent yn cymryd llawer o le mewn safle tirlenwi gan fod eu pwysau cyfartaledd yn 21kg (seagl), 40kg (dwrbl) a 50kg (enfawr). Maent hefyd yn rhyddhau nwyon wrth bydru ac yn gallu creu problemau amgylcheddol.

Mae sgip bwrpasol ar gyfer y matresi i'w gweld yng

nghanolfannau ailgylchu Gwynedd. Mae'r matresi yn cael eu casglu gan gwmni ar gyfer eu hailgylchu, yna bydd peiriant pwrpasol yn gwahanu'r fatres yn bum rhan - y ffabrig, sbwng, dur, sbring a phlastig. Mae'r rhan fwyaf o'r deunyddiau hyn wedyn yn cael eu glanhau a'u hailddefnyddio mewn pethau megis ffabrig arall, isgarped, carped, carped car, tuniau a chlipiau papur.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw agwedd o leihau gwastraff, ailgylchu a chompostio yng Ngwynedd, neu i drefnu casgliad gwastraff swmpus, cysylltwch â'r Cyngor ar 01766 771000 neu e-bostio: ailgylchu@gwynedd.gov.uk

Mae manylion am leoliadau ac amseroedd agor canolfannau a banciau ailgylchu Gwynedd ar y wefan www.gwynedd.gov.uk/ailgylchu

Grantiau ar gael i grwpiau cymunedol yng Ngwynedd

Mae grantiau o hyd at £1,000 ar gael drwy Strategaeth Pobl Hŷn Gwynedd ar gyfer grwpiau cymunedol sy'n hybu iechyd, lles ac annibyniaeth pobl wrth iddynt heneiddio.

Mae Cyngor Gwynedd yn galw ar fudiadau sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl dros 55 oed - er enghraifft clybiau cinio neu glybiau cymdeithasol - i gysylltu er mwyn dysgu mwy am y grant ac i weld os ydynt yn gymwys i wneud cais.

Bwriad y cynllun yw helpu cyfoethogi bywydau pobl hŷn yng Ngwynedd ac anelu at roi help llaw i bobl dros 55 oed ddal ati i fyw bywyd i'r eithaf. Gall hyn fod drwy nifer o ffyrdd megis:

- Cynnig gwasanaeth arbennig,
- Cynnig cwmniaeth a darparu lle i bobl gwrrdd â ffrindiau,
- Cynnal gweithgareddau corfforol,
- Cynnal digwyddiadau diwylliannol neu addysgol,
- Rhoi cyfle i bobl ddysgu am wasanaethau a hawliau pobl hŷn.

Gellir defnyddio'r grantiau, sy'n cael eu gweinyddu gan Strategaeth Pobl Hŷn Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth â Chyngor Pobl Hŷn Gwynedd, i brynu offer neu dalu am gostau rhedeg grwpiau.

Meddai'r Cyngorydd

John Wyn Williams, sy'n arwain ar faterion pobl hŷn yng Ngwynedd: 'Rydau ni fel Cyngor yn falch iawn o allu cefnogi'r clybiau a'r cymdeithasau yma, gan fod eu gwaith yn hanfodol wrth helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol, yn enwedig i'r rheini na fyddai efallai'n gwybod fel arall am y gwasanaethau a'r rhwydweithiau sy'n gweithio ar eu rhan.'

'Bydd poblogaeth hyn y sir yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, mae pobl yn iachach ac yn fwy sionc nag erioed wrth heneiddio ac mae disgwyliadau pobl yn wahanol iawn y dyddiau yma.'

'Yn anffodus, gall rhai pobl fynd yn unig wrth iddyn nhw fynd yn hŷn, a cholli eu hunan hyder, er enghraifft ar ôl colli partner, neu eu teulu wedi symud i ffwrdd. Ond gall clybiau a chanolfannau fel y rhai sy'n cael eu cefnogi gan y Cyngor gynnig y cam cyntaf at arwain bywyd llawer hapusach a mwy ystyrlon.'

'Maen nhw'n darparu pob mathau o wasanaethau - yn ddosbarthiadau ymarfer corff, gwasanaethau gwybodaeth neu'n llefydd lle gall pobl gael sgwrs efo ffrindiau dros baned o de.'

Astudiaeth achos

Mae Canolfan Heneiddio'n Dda Nefyn, y gyntaf yng Ngwynedd, wedi sicrhau grant Strategaeth Pobl Hŷn Gwynedd tuag at ei chostau rhedeg.

Mae'r Ganolfan yn agored dri diwrnod yr wythnos ac yn cynnig amrywiaeth helaeth o gyfleoedd a gweithgareddau fel dosbarthiadau ymarfer, sgwrsiau, sesiynau crefftiau - yn gystal â rhywle i bobl fynd i gyfarfod ffrindiau.

Dyweddodd Carol Scott o Edern: 'Rydw i wedi cael modd i fyw yn y clwb. Rydw i newydd ymddeol felly roeddwn yn chwilio am ryw beth newydd i'w wneud. Roedd sesiwn cadw'n heini yn mynd ymlaen heddiw a chawsom goblyn o short, wedyn roedd cyfle i roi'r byd yn ei le dros baned.'

Mae Canolfan Heneiddio'n Dda Nefyn yn agored ddydd Llun, Mercher a Gwener. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mici Plwm, cydlynnydd y ganolfan ar 07709 065410 neu nefyn@acgm.co.uk

Cadw'n heini yn y flwyddyn newydd

Yn ddiweddar, mae Gwasanaeth Hamdden Cyngor Gwynedd wedi lansio pecynnau iechyd a ffitrwydd newydd sy'n cynnig

bargen ragorol - gan ddechrau o £16 y mis.

Y nod ydi annog pobl i ddewis ffordd iachach o fyw, a chynnig hwb ychwanegol i bobl wneud ymrwymiad hirdymor yn hytrach na rhyw chwiw dros dro ar ôl y Nadolig.

Gyda nifer o bobl yn gwneud adduned yn y flwyddyn newydd i wella ei ffordd o fyw, nid oes gwell amser i fanteisio ar y fargen. P'un ai cadw'n heini, colli pwysau, cyfarfod pobl newydd neu deimlo yn well amdanoch eich hun ydi'r bwriad, mae'r cyfan yn bosibl wrth ymuno efo'ch canolfan hamdden Cyngor Gwynedd leol.

Mae'r pecyn talu drwy ddebyd uniongyrchol yn cynnig manteision gwyb, gan gynnwys:

- Dim ffi ymuno

- Dim ffi gweinyddu

- Gwers anwytho i'r ystafell ffitrwydd yn rhad ac am ddim
Meddai'r Cyngorydd Roy Owen, sy'n gyfrifol am bortffolio hamdden Cyngor Gwynedd:

'Mi wyddon ni i gyd fod cadw'n heini yn rhan allweddol o fywyd iach a hapus. Mae ymarfer corff yn gwella eich iechyd corfforol ac yn gallu eich helpu i osgoi cyflyrau megis pwysau gwaed uchel, clefyd y galon a chlefyd siwgr. Mae cadw'n heini yn ffordd o fod yn gymdeithasol hefyd ac yn gallu bod o fudd i'ch iechyd meddwl a'ch lles.'

'Mi fyddwn i'n pwysu ar bawb i fanteisio ar y dewis gwyb o gyfleusterau sydd ar gael yng nghanolfannau hamdden y Cyngor. Os ydach chi'n dewis prynu tocyn misol neu dalu trwy ddebyd uniongyrchol, mae'r pecynnau yma'n cynnig pob math o fanteision ac amrywiaeth helaeth o weithgareddau eraill am lai na phunt y dydd.'

Wrth ymuno â'ch canolfan hamdden Cyngor Gwynedd leol gallwch fanteisio ar amrywiaeth o weithgareddau a chyfleusterau, megis yr ystafell ffitrwydd, dosbarthiadau ffitrwydd a nofio i'r cyhoedd. Mae cyfle hefyd i ddysgu chwaraeon newydd fel badminton, tenis bwrdd, sboncen neu denis.

Mae staff cymwys wrth law i helpu ym mhob un o ganolfannau hamdden y Cyngor.

Cysylltwch â'ch canolfan hamdden leol am fwy o fanylion am y pecynnau misol, neu ewch i: www.gwynedd.gov.uk/canolfannauhamdden

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Parhad CYNGOR GWYNEDD

Lansio partneriaeth newydd diogelwch ffyrdd Gwynedd-Môn

Mae partneriaeth arloesol diogelwch y ffyrdd rhwng Gwynedd, Môn a'r tri gwasanaeth brys wedi cael ei lansio yn swyddogol mewn digwyddiad diogelwch y ffyrdd yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, Glynllifon.

Mae'r cytundeb cyntaf o'i fath yng Nghymru yn golygu y bydd Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd Gwynedd-Môn yn gweld timau o Gyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau diogelwch ar y ffyrdd yn y ddwy sir.

Dywedodd Dermot O'Leary o Wasanaeth Ambiwlans Cymru a Chadeirydd y Bartneriaeth:

'Mae partneriaeth diogelwch ffyrdd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd yn dod a sgiliau a phrosfiad y gwasanaethau brys a'r awdurdodau lleol ynghyd gydag un uchelgaïs sef, lleihau'r nifer o bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd.

'Yn rhy aml rydym yn gweld canlyniadau trasig damweiniau ffyrdd a'u heffeithiau parhaus

ar gymunedau lleol. Trwy gydweithio mewn ffordd ddeallusol a chanolbwyntio, gallwn dargedu grwpiau risg uchel a'r grwpiau sy'n agored i niwed gan bwysleisio'r neges nad yw diogelwch ar y ffyrdd yn ddamwain.'

Bwriad y bartneriaeth newydd yw sicrhau bod holl asiantau'r bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau cydlynw negeseuon diogelwch ar y ffyrdd ar draws Gwynedd a Môn.

Hefyd fel rhan o'r digwyddiad, lansiwyd gwefan newydd Partneriaeth Diogelwch Gwynedd-Môn - www.dffgwyneddmon.net - bydd y wefan yn darparu amrywiaeth o gyngor, gwybodaeth ac awgrymiadau ynglŷn â chadw yn ddiogelwch ar ffyrdd yn y ddwy sir.

Dywedodd y Cynghorydd Stephen Churchman, sy'n arwain ar faterion diogelwch y ffyrdd ar Gyngor Gwynedd:

'Mae materion diogelwch ar y ffyrdd yn effeithio arnom i gyd ac mae ystadegau damweiniau ffyrdd yng Nghymru yn ddifrifol, yn enwedig damweiniau sy'n ymwneud â gyrwyr neu deithwyr rhwng 17 a 26 oed.

'Mae taclor'r mater yn flaenoriaeth i bob un o

aelodau'r bartneriaeth ac mae'n braf iawn gweld asiantaethau yn dod at ei gilydd i rannu un neges gyffredin. Mae gwaith y bartneriaeth yn barod i'w weld ar y wefan. Mae'r adnodd hwn yn allweddol i lwyddiant y gwaith ac yn darparu cyfleusterau a gwybodaeth wych ar gyfer pobl o bob oedran.'

Nododd Huw Percy, Prif Beiriannydd o Gyngor Sir Ynys Môn:

'Roedd yn addas i'r lansiad gael ei chynnal yng Ngholeg Meirion-Dwyfor gan ei fod yn cyd-fynd gyda gweithgareddau ar hyn o bryd i hyfforddi gyrwyr ifanc ac i annog pobl ifanc i adael car os ydynt yn poeni am yrrwr yn mynd yn rhy gyflym, yn defnyddio ffon neu'n defnyddio cyffuriau neu alcohol.'

Yn ystod y dydd, cafodd myfyrwyr Coleg Meirion-Dwyfor gyfle i siarad a holi swyddogion diogelwch ar y ffyrdd o wahanol asiantaethau'r bartneriaeth,

gydag amrywiaeth o ddigwyddiadau a chyflwyniadau hefyd yn cael eu cynnal gyda'r bwriad o bwysleisio neges diogelwch ar y ffyrdd ymysg gyrwyr ifanc.

Dywedodd Megan Jones o Ddeiniolen sy'n fyfyrwr yng Ngholeg Meirion-Dwyfor:

'Roedd bod yn rhan o'r lansiad yn brofiad da iawn. Nid ydwyf yn gyrru car hyd yn hyn, ond rwyf wedi dysgu llawer iawn ynglŷn â beth y dylwn i feddwl amdano, a bod yn ymwybodol ohono, pan rwyf wrth lyw'r car. Rwyf hefyd yn meddwl fy mod wedi dysgu sut i fod yn deithiwr mwy cyfrifol, ac i ddweud wrth yrrwr car os rwyf yn meddwl eu bod yn gyrru'r car yn beryglus. Mae'r wefan newydd yn syniad da, fe wnaiff roi llawer iawn o wybodaeth helpu gyrwyr ifanc ddysgu am ddiogelwch ffordd.'

Ychwanegodd Ben Hughes o Bwllheli sydd hefyd yn fyfyrwr yn y coleg:

'Nid ydwyf â thrwydded yrru ar hyn o bryd, ond rwyf yn bwriadu defnyddio'r wefan i ddysgu mwy ac i baratoi fy hun at pan fyddai'n dysgu gyrru. Fel rhan o'r lansiad roeddem yn cael cyfle i glywed am brofiadau'r swyddogion gwasanaethau brys, ac i'w holi hefyd. Credaf ei bod yn bwysig iawn i ddyddiau fel hyn gael eu cynnal, er mwyn i bobl ifanc ddod yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelwch ffyrdd. Mae cael gwefan newydd gyda'r holl wybodaeth arno yn mynd i fod yn ddefnyddiol iawn. Rwy'n falch fy mod wedi cael cyfle i fod yn rhan o'r lansiad.'

Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed o Ragfyr 2011 penderfynwyd:

- Cadw at gynnal cyfarfodydd y Cyngor ar nôs Fawrth.

Dosbarthu teclynau codi sbwriel i aelodau gyda'r bwriad o gael gwirfoddolwyr i'w defnyddio i dcluso gwahanol ardaloedd o fewn y gymuned.

Gofyn i Gyngor Gwynedd symud y bin ger mynedfa Nant y Glyn yn ncs i'w leoliad gwreiddiol ger llwybr troed y plant ysgol gan y credir eu bod yn taflu'r sbwriel ar y llawr yn hytrach na'i gludo i'r bin.

Gofyn i'r Wardeniaid Traffig ymweld a'r ardal yn rheolaidd gan fod ceir yn cael eu parcio ar y llinellau melyn.

Anfon y sylwadau canlynol i Gyngor Gwynedd fel ymateb i'r cais am sylwadau ynglŷn a Chynllun Datblygu'r Sir.

(1) Bod digon o dai sydd yn

addas i deuluoedd eisioes ym mhentref Llanrug mewn cyfnod ble mae'r ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn llawn.

(ii) Bod prinder o fyngalôs neu gartrefi addas ar gyfer henoed yn y gymuned.

(iii) Bod problemau parcio enbyd ym mhentref Cwm y Glo a fyddai ond yn cael eu gwneud llawer gwaeth pe byddai mwy o ddatblygu yn digwydd yno.

- Bod angen cyfarfod safle gyda'r Pensacr a'r Adran Prifffyrdd cyn myneci barn ar y cynllun i adeiladu 7 tŷ fforddiadwy ar safle Hen Ysgol Glan Moelyn, Llanrug. Roedd hefyd angen gwybod os oedd angen i'r Cyngor werthu darn o dir ar gyfer y datblygiad.

Nad oedd gwrthwynebiad i'r cais i adeiladu modurdy sengl ar ochr tŷ annedd a chreu mynediad cerbydol newydd a newid ffin cefn i Rhos Wen, Llanrug.

- Gwrthwynebu'r cais ôl-weithredol i gadw newid defnydd festri i uned byw i gynnwys balconi yn Capel Mawr, Llanrug gan nad yw'n addas i'r rhan yna o'r pentref a'i fod yn effeithio ar fwynderau trigolion tai cyfagos. Penderfynwyd hefyd datgan pryder am ddefnydd achlysurol o'r eiddo a fyddai yn effeithio yn waeth ar drigolion cartrefi cyfagos.

- Nad oedd gwrthwynebiad i'r cais i adeiladu siop a chiosg newydd, toiled, derbynfa, gweithdy/canolfan MOT a swyddfa yn London Garage, Cwm y Glo.

Gwrthwynebu Codi ty newydd a gosod tanc septig ar dir ger Lliidiart y Rhos, Llanrug oherwydd gor-ddatblygu'r safle, pryder am y fynedfa i'r safle a phryder y byddai'r datblygiad yn amharu ar ddefnyddwyr llwybr

cyhoeddus. Penderfynwyd hefyd i ofyn wrth y Cyngor a fyddai'r datblygiad, pe byddai yn derbyn caniatâd, yn agor tir amaethyddol i fyny i ddatblygiad mwy yn y dyfodol. Rhoi grant o £2100 i Sefydliad Coffa, Llanrug.

- Gofyn am breisept o £23500 am y flwyddyn 2012-13 sef cynydd o £2000.

Anfon nodyn i'r ymgymerwyr yn rhybuddio yn erbyn rhoi goleuadau a phob math o bethau eraill ar y beddi sy'n groes i reolau'r fynwent a rhoddi nodyn yn y papurau lleol cyn cysylltu gyda'r teuluoedd penodol i ofyn yn garedig wrthynt am eu tynnu oddi yno.

Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn pryderu am gyflwr safle yr hen Garej Hafod a chwestiynu hefyd os yw'r safle yn ddiogel os nad yw'r tanciau petrol wedi eu tynnu oddi yno.

Adroddiad y Cadeirydd 2011

Mae'n rhaid dweud bod tymhorau gwell wedi bod na'r un a aeth heibio, am sawl rheswm. Roedd y gaeaf y llynedd yn oerach nacers degawdau, gydag eira ar lawr y dyffrynnoedd, a'n llynnoedd wedi cau dan rew am wythnosau, a'r copaon yn wyn am fisoedd. Ychydig aeth ati i bysgota ar ddechrau'r tymor, gyda chynigion yn brin a'r brithyll a ddaliwyd yn ein dyfroedd yn deneuach na'u gwelwyd ers tro, hyd yn oed wrth i fis Ebrill hebrwng y gwanwyn i'r fro.

Yn ffodus bu gwellhad, yn arbennig ar y llynnoedd. Ar Llyn Cwellyn, Cwm Dwythwch a Llynnoedd Cwm Silyn, wedi iddi hi gynhesu, cafwyd pysgota brithyll da ar ddiwedd y gwanwyn a thrwy'r haf. Mae mwy o sôn bob blwyddyn am y pleser sydd i'w gael wrth bysgota brithyll cynhenid, gwyllt, mewn dyfroedd naturiol ac ardaloedd anghysbell a gyda thirlun godidog yn gefndir i'r gamp. Mae peryg i ni gymeryd y pethau yma'n ganiataol gan mai dyma'n pysgota arferol ni yn yr ardaloedd yma, ond mae nifer dda o ymwelwyr, o wledydd Prydain a thramor wedi dod yn benodol i flasur profiad a'r sialens yma ar rai o'n dyfroedd eto eleni, ac wedi mwynhau'r croeso a'r adloniant am bris tocyn dyddiol neu wythnos. Roedd pysgota llwyddiannus yn Dywarchen ar hyd y tymor. Yn llai ffodus, wrth gwrs, doedd Llyn Padarn dlawd ddim wedi cynnig cystal pysgota. A'i thorgoch? Prin iawn oeddynt eleni. Tybed a'u gwelwn eto?

Roedd glannau'r Llyfni'n dawelach yn ystod yr haf, ac er bod gwyniadau wedi eu dal roedd y niferoedd yn llai eleni. Ar yr Afon Seiont mae'r sewin yn cael mwy o lonydd gan enweirwyr wedi rhai blynyddoedd llwm, ond y gwir yw bod tipyn i'w cael, ac ambell i unigolyn wedi dyfalbarhau a llwyddo i gael daliadau da dros wythnosau'r haf, yn cynnwys gwyniadau o faint sylweddol.

Roedd eog wedi dod i'r rhwyd ar y Gwyrfa, ac eto i'r rhai sydd yn crwydro i glannau yn gyson ac yn gyfarwydd efo'r dirgel fannau. Roedd tipyn o sôn yn y wasg ac ar lawr gwlad bod eogiaid yn niferus iawn mewn ardaloedd eraill a phan lanwyd dyfroedd y Seiont gyda llyfogydd Awst roedd disgwyliadau gobeithiol am radiadau da. Bu ambell eog ym mis Awst, gan gynnwys un o'r Llyn ond eto roedd yn ymddangos nad oeddni ni am gael ein siâr o'r heigiau torcithiog o eogiaid a ddisgwyliid. Bu dŵr ym mis Medi ond er chwipio'r pyllau roedd pysgod yn brin - i'w gweld heb sôn am eu dal. Wedyn cafwyd cyfnod sych, a dyddiau mis Hydref yn gynhesach nac erioed o'r blaen, a dim ond ar ddiwedd y tymor y daeth lli eto a rhywfaint o gysur ac ambell eog bras yn dod i law. Mae'r tymor bellach yn ymestyn i fis Tachwedd a pysgod glân wedi eu bachu a rhai eto wedi eu cadw i'w godro.

Tristwch mawr y flwyddyn oedd yr adroddiadau a ddaeth i law yn datguddio gwir sefyllfa Llyn Padarn. Rydym ni fel aelodau a swyddogion wedi tyngu sylw at y llygredd ers ugain mlynedd, wedi mynychu cyfarfodydd, wedi dwyn achosion llys, ac wedi dal ati i geisio cael yr awdurdodau i gydnabod dwyster y broblem, a thrwy hyn symud ymlaen i'w datrys. Rhwystredigaethau, bychanu ein cwynion a chau drysau un ar ôl y llall oedd yr ymateb hyd nes daeth yr algai gwyrddlas ddwy flynedd yn ôl, ac eto gyda bygythiad cyfreithiol doedd posib gwadu bellach mae diffyg rheolaeth ar weddillion cartffosiacth yn llifo i'r llyn dros y blynyddoedd sydd wedi achosi'r broblem. Mae'r canlyniadau yn anafus. Mae'r oblygiadau i bentref Llanberis a'r ardal yn hallgyrhaeddol, a'r tindroi araf i gasl adroddiad ar ôl adroddiad yn hytrach na dechrau adfer cyflwr y llyn yn gywilyddus. Mae crynodeb o'r adroddiad ar wefan y Gymdeithas (<http://www.sgll.co.uk/Tech%20Cp%20summary%20report%20final%2023%2006%202011.doc>)

Mewn brawddeg neu ddwy - mae Padarn wedi ei gymharu efo Llyn Cwellyn - llyn rhewlifol, ddigon tebyg ei faint a'i natur ac



Ar ben arall i'r lein

mewn dyffryn cyfagos. Mae tymheredd Llyn Padarn ger Afon Y Bala - lle mae'r torgoch yn claddu bellach - ac yn y dyfnderoedd weithiau hyd at ddwy radd yn gynhesach nac unrhyw fan tebyg yn Llyn Cwellyn. Mae lefel cemegau llygredig, yn arbennig y ffosffad, yn Llyn Padarn ymhell tu hwnt i unrhyw lefel naturiol. Mae'r ddau lyn yn ddwfn iawn - cartref naturiol y torgoch - ond wrth gymharu gwahanol ddyfnderoedd gwelir bod y ffosffad yma wedi bwydo algai, a hwnnw wrth farw yn sugno ocsigen o'r dŵr nes bod dyfnderoedd Padarn bellach heb ddigon o ocsigen i gynnal pysgod, a hyn yn arbennig yn y dyfnderoedd lle trigir torgoch. Ni all y torgoch fyw yno bellach. Mae rhywogaeth unigryw Padarn a Pheris, salvelinus perisii, sydd wedi ffynnu yn ein dyffryn ers deg mil o flynyddoedd, yn symbol o'n ardal a'n mynyddoedd a'n dyfroedd, wedi ei ddifa dros ychydig ddegawdau. Mae cymaint o sôn a brolio'r cyrff sydd yn gyfrifol am blismona'r byd naturiol ac amddiffyn yr amgylchedd ar ein rhan, ond mae'n rhaid gofyn, yn wir, gyda'r holl wylwyr yn eu tyrrau ifori sut bu ffasiwn ofer esgeulustod?

Gobeithiwn y bydd modd symud ymlaen gyda chamau ymarferol a phositif i ddechrau adfer y sefyllfa. Os peidia'r llygredd o heddiw ymlaen, bydd angen blynyddoedd i'r llyn droi'n ôl i'w gyflwr naturiol. Does dim posib cyfiawnhau oedi ymhellach.

Oes unrhyw newyddion gobeithiol am ein tymor? Roedd llwyddiant y pysgota ar y llynnoedd eraill a'r brithyll ar yr afonydd yn ystod yr haf yn bleserus. Yn ystod mis Mai aethpwyd â rhai miloedd o eog mân i'w stocio i'r Afon Hwch a'r Arddu - pysgod oedd wedi eu magu yn Nolgellau wedi i ni ddal eog i'w godro ar ddiwedd 2010. Mae'r rhain, a'r pysgod rhywfaint yn fwy a aeth i'r Arddu eto yn ystod mis Hydref, wedi goroesi'n dda a gobeithiwn y byddant yn hwb i nifer yr eog a ddaw yn ôl i'r Seiont yn y dyfodol.

Mae arwerthiant gërsgota ar y gweill at y gwanwyn. Mae'n bwysig i ni gael syniad faint o ddeunydd ddaw i law felly cysylltwch efo aelodau'r pwyllgor yn yr wythnosau nesaf os oes offer pysgota yr hoffech ei werthu, os gwelwch yn dda. Oherwydd trafferth Llyn Padarn mae'r ysgrifennydd wedi bargeinio rhenti is ar rai o'n dyfroedd. Mae hyn yn newyddion da gyda phethau fel y maent ar hyn o bryd. Tra'n cofio mai tâl aelodaeth a gwerthiant tocynnau yw ein prif ffynhonnell incwm, a thra bod codi prisiau yn un ffordd o geisio cynnal yr incwm, mae peryg hefyd colli aelodau a gwano'r Gymdeithas. Am y pedwerydd tymor yn olynol, felly, penderfynwyd peidio codi prisiau. Ond pwysleisiwn hefyd bod talu cyn Mawrth y cyntaf yn rhatach i'r aelod a hefyd o fantais mawr i'r Gymdeithas dalu ei ffordd yn ystod y flwyddyn a gobeithiwn cael eich cefnogaeth yn hyn.

Diolchafar eich rhan i bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn: y trysorydd, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgor, yn ogystal â'r rhai sydd yn weithgar tu ôl i'r llenni yn clirio a chynnal y glannau a'r cychod, a threfnu tocynnau i'r siopau. Mae'r criw yn Crawia hefyd wedi rhedeg tipyn efo'r gwaith stocio, ac yn haeddu diolch. Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r ysgrifennydd am ei waith yn 2011.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r flwyddyn Newydd a phob hwyl gyda'r enwair yn 2012.

Dr. Robin Parry (Cadeirydd)

C Y N G O R LLANDDEINIOLEN

Crynodeb o gofnodion cyfarfod Ionawr.

Maes Parcio, Brynrefail. Ateb Gwynedd nad oes cyllid ar gyfer hyn ar hyn o bryd ond ystyrir gosod llinellau melyn yn y pentref. Ychwanegodd Pat Jones bod rhaid cael lle i adael ceir yn rhywle ac awgrymodd gyfarfod â swyddogion Gwynedd ar y safle.

Gwaith patchio Rhiwlas. Ateb Gwynedd bod y gwaith wedi ei wneud ond sicrhodd Elspeth Mitcheson nad ydyw hynny'n

wir.

Pwyllgor Rhieni ac Athrawon ysgol Gwaun Gynfi. Derbyniwyd eu cais am arian ar gyfer clirio eira a graeanu. Gwrthodwyd cais cyffelyb oddi wrth Brifathro'r ysgol rai misoedd yn ôl gan y gallai cefnogi ysgol yn ariannol, o bosib, greu cynsail. Penderfynwyd sefyll at y penderfyniad hwnnw.

Llochesau bws, Dinorwig. Ateb Gwynedd nad cyfrifoldeb y gang gymunedol yw clirio sbwriel o lochesau a bod y cais wedi ei anfon ymlaen i'r Adran

Gwaith Bwrdeistrefol gan bod diffyg naill ar y ddarpariaeth biniau neu lanhau yno.

Ffordd Winllan, Penisa'rwaun. Derbyniwyd adroddiad Aled Green bod llifogydd drwg ar y ffordd yma o'r arwydd 30mya at Winllan a Thros Waun.

Gwnaeth Phyllis Ellis ddau bwynt:

1. bod y blwch postio ger Tan Gaer wedi diflannu a

2. bod golau diffygiol ger Capel Glasgoed, yn ôl swyddogion Gwynedd diffyg yng nghyflenwad trydan Scottish Power yw'r broblem.

Dywedodd y Clerc ei ei fod eisoes wedi cysylltu â'r Post Brenhinol ynglŷn â'r blwch postio. Cysylltir â'r Adran Oleuadau, Cwm y Glo ynglŷn â golau Capel Glasgoed.

Bagiau bin. Dywedodd Elspeth Mitcheson bod rhai pobl yn cael deuddeg bag bin du gan Wynedd ac eraill ddim. Addawodd wneud ymholiadau. Cynllunio. Cais am adeiladu 3 tŷ, ger Y Bedol, Bethel.

Tŷ mawr Cottages. Hysbyswyd Gwynedd bod dwy garafan sefydlog ar y safle a derbyniwyd cadarnhad eu bod yn edrych i mewn i'r sefyllfa.

Cefnogwch ein hysbysebwy

Chwaraeon

CHWIP O GÊM

Denwyd torf dda i Eithin Duon ar gyfer ymweliad Hotspurs Caergybi ym mhedwaredd rownd Tlws Cymru. Ar gae trwm cafwyd agwedd bositif gan y ddau dîm, gyda phasio llyfn a chyd-chwarac safonol. Rhaid canmol agwedd Aled Owen yn ei barodrwydd i roddi cyfle i'r ieuenctid. O ddarllen y rhaglen ardderchog a baratoir gan glwb Llanrug, braf sylwi fod nifer o'u chwaraewyr wedi datblygu o'u timau ieuenctid. Dyma wers bwysig i sawl clwb.

Chwifai'r chwarae o un ochr i'r llall. Roedd pasio'r ymwelwyr yn fwy llyfn, gyda'r amryddawn Mel McGuinness a Mike Edwards yn flaenwyr peryglus. Ond roedd amddiffyn Terry Jones ac Eifion Williams yn arbennig. Tarodd y ddau dîm y pyst ond, ar yr hanner, di-sgôr oedd yr hanes.

Roedd chwip o ail hanner yn cin disgwyl. O fewn pum munud roedd McGuinness wedi rhwydo o 10 llath. Yn

ôl daeth Llanrug a Gareth Edwards yn rhwydo o groesiad Rhys Roberts. Sawl arbediad da gan David Ball wedyn - seren y gêm - yn y gôl i Lanrug. I fyny'r llethr aeth Llanrug a Rhys Roberts yn troi yn y cwrw chwech a rhwydo. Deg munud da i Lanrug ond ni ddeuai'r drydedd gôl. Ball yn dal i rwystro'r Monwysion ond, gyda phum munud i fynd, Edwards yn rhyddhau McGuinness â phas gelfydd, a'r 'bychan' yn codi'r bêl yn gelfydd dros Ball.

Amser ychwanegol. O un pen i'r cae i'r llall, Ball eto'n serennu. Yna, gyda 5 munud ar ôl, y gôl holl bwysig. Cic rydd o 30 lath i'r Hotspurs. Chwip o ergyd gan Gibbs ond Ball yn taflu ei hun i gadw'r bêl allan, ond y bêl yn disgyn i droed Edwards a hwnnw'n rhwydo. 3-2 i'r Hotspurs wedi gêm gofiadwy.

Diolch i'r ddau dîm am adloniant i'w ganmol. Os hyn yw trydydd haen pêl-droed



Cymru yna rydym mewn sefyllfa iach. Gobeithio y gwelwn y datblygiad yn parhau, ac yn y diwedd gweld y llif angenrheidiol o fechgyn 'lleol' yn bwydo timau yn yr Uwch Gynghrair. Yr ymdeimlad o 'dîm lleol' o 'fechgyn lleol' sy'n

denu'r torfeydd.

Gobeithio bod dyddiau arian lleol yn llenwi pocedi estron yn prysur ddiiflannu.

Diolch arbennig i hogia'r 'cwt te' am y paneidiau bendithiol ar bnawn oer.

TIPYN O GYMERIAD

Soniais mewn rhifyn blaenorol am ddatblygiad Cai Llwyd Jones o Ysgol Bethel yn y byd tennis. Chwi gofiwch ei fod ar ei ffordd i Dwrnament Prydeinig draw yn Nottingham. Er colli ei gêm gyntaf, yn ôl y daeth ac ennill pob un o'r gemau eraill a gorffen yn ail ar ddiwedd y cystadlu. Tipyn o berfformiad! Y penwythnos canlynol enillodd dwrnament lleol yng ngogledd Cymru. Byddwn yn cadw golwg ar ei ddatblygiad. Buan iawn byddwn wedi blino ar Murray!



Chwaraeon

FFARWEL I 'STADIWM BREUDDWYDION'

Ie, dyna fu Ffordd Farrar i nifer ohonom. Cael chwarae yno oedd chwarae ar Wembley. Yno y bu John Charles a Best, Naples a thimau eraill o Ewrop a Jiws a'i lu o goliau. Asda fydd yno mewn ychydig a'r 'Gleision' yn symud i Nantporth, hen gae y Normal.

Dros y blynyddoedd bu cannoedd o Fro'r Eco yn ddilynwyr pybyr, yn enwedig o fro Deiniolen a Dinorwig. Yr un sedd neu'r un fan ar y teras pob Sadwrn. Wrth fy ochr yn rheolaidd mae Trefor Lewis, cyn-weinidog yn 'y topia'. Dilynwr selog.

Cafwyd gêm gofiadwy - a buddugoliaeth - o 5-3 yn erbyn Prestatyn i gloi'r hanes yn Ffordd Farrar. Awyrgylch gwych gan y dorf o 3,000. Os ffarwelio, ffarwelio mewn steil!

Sadwrn cyn y gêm cafwyd rhaglen deyrnged gan griw Ar y Marc a denwyd swyddogion, cyn-chwaraewyr a chefnogwyr i gyfrannu. Gwledd o gofio, rhamantu ac edrych ymlaen. Yn cynrychioli y to ifanc yr oedd Elgan Rhys Jones o'r Waunfawr. Soniodd fel y mae yn olyniaeth y teulu o fynd gyda'i dad, Dylan, yn rheolaidd i 'gadw'r ffydd'. Yr oedd yn ffyddiog mai da o beth oedd symud oddi wrth yr 'hen wreigan' at y 'fodel newydd' draw yn Nantporth. Bydd ganddo dipyn o ddarluniau i'w atgoffa am ffarwelio â'r hen gae.



Elgan yn y 'dug-out' yn ffordd Farrar gyda Dylan Jones, Meilir Owen a Gwyn Pierce-Owen. Rheolwr y dyfodol?

Gobeithio y bydd Nantporth yn datblygu yr un rhamant, a chysylltiad ag Ewrop. Gobeithio hefyd y denir gemau rhyngwladol yma. Mae'r gefnogaeth i'r bêldroed yn lleol ar sawl lefel ar gyfnewydd, yn ddi-os. Mwy o gemau nos Wener neu'r Sul yn Nantporth, a dilyn y tim lleol ar bnawn Sadwrn efallai. Amser a ddengys.

Tomi Llywelyn,
Llanrug: mascot Bangor.

GOBAITH AM GAPLAU?



Aled Owen, rheolwr Llanrug yn llongyfarch Gruff ar ei ddewis.

Dau rifyn yn ôl rhoddais sylw i ddatblygiad a pherfformiadau aeddfed Gruffydd John Williams i glwb Llanrug. Fel cefnwr de, neu ganol cae ymosodol, mae yn gyffyrddus â'r bêl wrth ei draed a'r ddawn ychwanegol ganddo o sgorio goliau hefyd.

Ymysg ei gyfoedion, mae yn gapten tim dan 18 rhanbarth Arfordir Gogledd Cymru. Maent yn cystadlu â rhanbarthau eraill y gogledd a'r canolbarth, ac yn ffefrynnau i gipio'r bencampwriaeth. Mae hefyd yn aelod o garfan lwyddiannus Ieuenctid Caernarfon, ar wahân, wrth gwrs, i fod yn aelod o dîm Ysgol Brynrefail. Digon o lwyfan felly i ddal sylw y dewiswyr. Y farn gyffredinol yw ei fod yn chwaraewr hyderus, parod i wrando a chyson ei berfformiad.

Braf felly yw gallu cofnodi ei ddewis i garfan rhagbrofol ysgolion Cymru dan 18 oed. Chwaraeodd ei gêm gyntaf draw ar faes y Seintiau Newydd. Dechrau campus drwy guro Colegau Lloegr 2-0. Ymlaen wedyn i Bont Llan-fraith yng Ngwent i wynebu tim Ysgolion Awstralia. Yna daw y cyfnod tyngedfennol. Ar

sail perfformiadau yn y ddwy gêm yma, fe wahoddir carfan i Sesiwn Ymarfer am ddau ddiwrnod yng Nghasnewydd. Wedi hyn y dewisir y garfan genedlaethol i chwarae yn y gemau 'cap' yn erbyn Lloegr. Yr Alban, Eire, Gogledd Iwerddon a Seland Newydd. Gobeithio, yn y rhifyn nesaf, y gallwn gyhoeddi fod Gruff yn y garfan honno.

Mae un arall o fois Brynrefs - Coleg Menai erbyn hyn - sef Jamie Mcdaid hefyd yn y garfan. Rwyf wedi gweld Jamie yn chwarae i Borthmadog unwaith neu ddwy eleni ac roedd yn gyffyrddus ar y lefel yna. Tipyn o syrpreis felly oedd deall ei fod wedi trosglwyddo i lawr un safon i glwb Caernarfon. Gyda Porthmadog â chysle i esgyn i Gynghrair Cymru y tymor nesaf, anodd deall y trosglwyddo. Pob lwc iddo yntau hefyd i gael gwisgo'r capan coch.

Nid dyna ddiwedd llwyddiannau disgyblion Brynrefail. Gwisgo fest Cymru fydd Josh Robinson. Mae Josh wedi ei ddewis i garfan pêl-fasged Cymru. Nid dyma'r cyntaf o'r disgyblion i wneud ei fare yn y gamp hon, sydd yn cynyddu yn ei phoblogrwydd. Cawn fwy o hanes Josh yn rhifyn mis nesaf.